Ysgol David Hughes

OPSIYNAU BLWYDDYN 9

2024 - 2025

CYNNWYS

BETH Y MAE DEWIS YN EI OLYGU AR DDIWEDD BLWYDDYN 9?

TYSTYSGRIF GYFFREDINOL ADDYSG UWCHRADD - TGAU

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD

LLEOLIADAU CYRSIAU COLEG AC YSGOLION UWCHRADD MÔN

PWY ALL FY HELPU?

CRAIDD

SUT I DDEWIS

BAGLORIAETH CYMRU

Annwyl Riant/Warcheidwad

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhoi cyfle i bob disgybl gael cwricwlwm cytbwys, eang a pherthnasol. Mae gofyn i bob disgybl astudio'r pynciau craidd, sef, Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a'r BAC, yn ogystal â Chwricwlwm Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG) sy'n cynnig profiadau pwysig a pherthnasol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i sicrhau fod pob person ifanc 14 i 19 oed yn gallu cynllunio eu "Llwybrau Dysgu" eu hunain wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, coleg a hyfforddiant. Bydd cyfle iddynt astudio ystod ehangach o bynciau ac amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol allai gynnwys astudio yn y coleg am gyfnod, neu ymweld â Chanolfan Hyfforddiant neu ysgol arall. Bwriedir sicrhau cyngor i bob unigolyn drwy'r Adran Gyrfaoedd a'r gyfundrefn fugeiliol o fewn yr ysgol.

Mae gwefan Gyrfa Cymru (www.gyrfacymru.llyw.cymru) yn cynnwys llawer o wybodaeth a chyngor ynglŷn â gyrfaoedd a'r gwahanol opsiynau sydd ar gael.

Eleni, ein nod yw bod pawb yn gwneud eu dewisiadau drwy ddefnyddio'r Google Form. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o wneud dewisiadau ac o brosesu'r wybodaeth.

Mae gofyn i bob disgybl ddewis un pwnc o bob colofn dewis. Mae'r ysgol yn awyddus i wneud mwy na chynnig y lleiafrif. Fe welwch oddi wrth y llawlyfr i ni geisio creu system a fydd yn galluogi disgyblion i allu dewis:

* Iaith fodern
* Un, dau neu dri phwnc dyneiddiol
* Pynciau sydd y tu allan i bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
* Opsiynau Galwedigaethol
* Un, dau neu dri phwnc creadigol
* Bywydeg, Cemeg a Ffiseg fel tri phwnc ar wahân

Eleni, bydd linc i fideo yn rhoid cyflwyniad byr am opsiynau a linc i'r Google Form ar gael a bydd noson hefyd i drafod yn fwy manwl gyda'r athrawon pwnc ar **5ed o Fawrth 2024**.
Mae Miss Lucy Rogers, Pennaeth Blwyddyn 9, bob amser yn barod i roi ei chyngor i'r disgyblion.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth a geir yn y llawlyfr hwn yn ddefnyddiol i chi er mwyn cefnogi a chynghori eich plentyn wrth gynllunio ar gyfer y cam nesaf yn ei yrfa.
Mawr hyderwn y byddwn yn parhau i gydweithio gyda'n gilydd i sicrhau llwyddiant eich plentyn yn y dyfodol.

Yn gywir

H. Dyr Williams

PENNAETH

BETH Y MAE DEWIS YN EI OLYGU YM MLWYDDYN 9?

Erbyn diwedd Blwyddyn 9 fe fydd yn rhaid i chi wneud penderfyniadau pwysig a allai gael effaith dyngedfennol nid yn unig ar eich gyrfa yn yr ysgol ond ar eich bywyd yn y dyfodol.

Y mae'n bwysig i chi wybod pam y mae'n rhaid gwneud y dewis o gwbl. Yr ateb i hyn ydyw amser. Os am astudio pwnc yn drwyadl mae'n rhaid cael mwy o amser i wneud hynny.

Mae eich bywyd yn gyfres o benderfyniadau - mae'r flwyddyn hon yn un o'r blynyddoedd pwysicaf pan fydd yn rhaid i chi wneud cyfres o benderfyniadau. Sut fydd eich dewis yn effeithio ar eich gyrfa neu swydd? Pwy all eich helpu? Beth ddylech ei ystyried wrth wneud eich dewis?

Dylai'r llyfryn hwn a safle we Gyrfa Cymru Ar-Lein (www.gyrfacymru.llyw.cymru) fod o help i chi i wneud eich dewisiadau.

PAM MAE DEWIS PYNCIAU MOR BWYSIG?

Mae'r hyn yr ydych yn ei benderfynu yn awr yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar eich bywyd yn y dyfodol. Bydd yn naturiol i chi weld y cysylltiad sy'n bodoli rhwng

- Y pynciau y penderfynwch eu dewis
- Y math o yrfa y dymunwch ei ddilyn

Gall cysylltiad agos fod rhwng y ddau. Rhaid i chi fod yn realistig ynglŷn â'ch gallu a'ch dewis. Ar hyn o bryd efallai nad ydych yn gwybod pa fath o waith yr hoffech ei wneud. Efallai, ar y llaw arall, bod gennych syniadau pendant ynglŷn â'r math o yrfa y byddech yn hoffi ei ddilyn. Ystyriwch y ffactorau a ganlyn yn ofalus:

- Pa bynciau yr ydych yn dda ynddynt?
- Pa bynciau yr ydych yn eu hoffi fwyaf?
- Pa bynciau sydd ar gael yn yr ysgol?
- Pa bynciau sy'n angenrheidiol i'ch gyrfa arbennig?
- Sut y gellwch gadw'r dewis yn agored cyn penderfynu yn bendant ar eich gyrfa?
- Pwy all eich helpu?

PYNCIAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Os ydych wedi bod yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3, yna dylech ystyried yn ofalus parhau i ddilyn nifer o'ch pynciau dewisol yn Gymraeg. Bydd hyn yn gymorth i chi i barhau i wella eich gallu i ysgrifennu a thrafod yn Gymraeg.

Yn ogystal, bydd hyn yn fanteisiol i chi yn y dyfodol gan fod nifer o swyddi a hysbysebir yn lleol yn gofyn am y gallu i siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg.

TYSTYSGRIF GYFFREDINOL ADDYSG UWCHRADD - TGAU

Cynllunnir meysydd llafur TGAU i sicrhau cyfle i ddisgyblion ddangos beth maent wedi ei ddeall a'i ddysgu yn ystod eu cyrsiau.

1. **CANLYNIADAU**
   Mae'r disgyblion sy'n dilyn cyrsiau TGAU yn derbyn eu canlyniadau yn ôl graddau - A-G (ac U). Rhoddir graddfa A* i gydnabod perfformiad arbennig.

2. **CWRICWLWM CENEDLAETHOL**
   Yn dilyn adolygiad diweddar o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, mae'r byrddau arholi wedi cyflwyno manylebau newydd ym mhob pwnc.

3. **PAPURAU ARHOLIAD GWAHANIAETHOL**
   Arholir nifer o bynciau TGAU mewn haenau, yr haen sylfaenol, canolradd neu uwch.

   Mae papurau a'r haenau gwahanol yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddangos yr hyn y maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn medru ei wneud drwy osod cwestiynau sydd wedi eu targedu ar gyfer ystod o gyrhaeddiad.

   Mae'n bosib gosod cwestiynau mewn rhai pynciau sydd o fewn cyrraedd i bob disgybl ond sydd yn ddigon heriol i ddisgyblion o bob gallu ar un haen yn unig.

4. **GWAITH CWRS / ASESIAD DAN REOLAETH**
   Ceir elfen o waith cwrs yn y nifer o gyrsiau TGAU ac mae cyfraniad y gwaith cwrs i'r radd derfynol yn amrywio o bwnc i bwnc.

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD

Cwrs ar gyfer y disgyblion hynny nad yw TGAU yn addas iddynt yw'r Tystysgrif Lefel Mynediad. Cynlluniwyd y cwrs er mwyn i'r disgyblion gael profiadau addysgol ystyrlon sy'n berthnasol iddynt.

Mae angen rhoi cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol i bob disgybl ac felly mae asesu cyson a gwaith cwrs yn bwysig.

Nid yw asesu Tystysgrif Lefel Mynediad yn dibynnu'n llwyr ar arholiadau. Mae gwaith cwrs yn rhan hanfodol o'r asesu.

Mae cyrsiau Tystysgrif Lefel Mynediad ar gael yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Mae dau brif amcan i'r Cwrs Tystysgrif Lefel Mynediad sef:

1. Gwella cymhelliant disgyblion a'u diddordeb yn eu gwaith ysgol, a gwneir hyn trwy ddarparu amrediad cyfoethocach ac amrywiol o brofiadau.

2. Er mwyn sicrhau bod pob plentyn a fydd yn gadael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn cael y cyfle i ennill tystysgrif sy'n dangos ei gyrhaeddiad academaidd yn 16+.

Mae'r disgyblion sy'n dilyn cyrsiau Tystysgrif Lefel Mynediad yn derbyn eu canlyniadau yn ôl y graddau

- Lefel Mynediad 3
- Lefel Mynediad 2
- Lefel Mynediad 1

LLEOLIADAU CYRSIAU COLEG AC YSGOLION UWCHRADD MÔN

PWNC	LLEOLIAD
BTEC Dyfarniad Cyntaf Lefel 2 mewn Peirianneg	Coleg Menai, Llangefni
BTEC Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Technoleg Cerbydol	Coleg Menai, Llangefni
CBAC TGAU Amgylchedd Adeiledig	Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch
Tystysgrif City + Guilds Lefel 2 mewn Gwallt Creadigol ac Astudiaethau Harddwch – (Gwallt Creadigol a Harddwch)	Ysgol Uwchradd Bodedern
CBAC Dyfarniad Lefel 1/2 mewn Twristiaeth	Ysgol Uwchradd Bodedern
Dyfarniad Estynedig Lefel 1 VTCT Mewn Sgiliau Gwallt A Harddwch – (Trin Gwallt a Harddwch)	Coleg Menai, Bangor
Tystysgrif Lefel 1 City & Guilds mewn Sgiliau Adeiladwaith	Coleg Menai, Llangefni
Tystysgrif Lefel 1 City & Guilds PEO, NVQ mewn Peirianneg Trin Ceir	Coleg Menai, Llangefni
Tystysgrif Lefel 1 City & Guilds PEO, NVQ mewn Peirianneg	Coleg Menai, Llangefni

Peirianneg Lefel 2 – Disgwylir Lefel 6/7 ar ddiwedd CA3 er mwyn parhau â'r cwrs Lefel, enwedig yn y Mathemateg.

Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 2 - Disgwylir Lefel 6/7 mewn Saesneg ar ddiwedd CA3 er mwyn parhau â'r cwrs Lefel 2.

Bydd cyrsiau coleg yn cychwyn am 1.35pm yn Llangefni a 1.20pm ym Mangor, ac yn gorffen am 4.25pm yn Llangefni a 4.10pm ym Mangor. Bydd yr ysgol yn trefnu cludiant i ac o'r coleg. Bydd angen i rieni gasglu'r disgyblion o'r ysgol am oddeutu 4.20pm (Bangor) a 4.45pm (Llangefni).

Yr un yw'r drefn am gyrsiau mewn ysgolion eraill. Bydd yr ysgol yn trefnu cludiant i ac o'r safle addysgu. Ond bydd angen i rieni drefnu casglu eu plant o'r ysgol wedi iddynt ddychwelyd. Bydd yr union amser yn cael ei gadarnhau eto.

PWY ALL FY HELPU?

Y bobl sy'n eich adnabod orau yw eich rhieni a bydd arnynt hwy yn naturiol eisiau trafod hyn gyda chi. Byddant eisoes wedi bod yn meddwl am eich dyfodol. Mae'n angenrheidiol cael eu help a'u cyngor hwy. Mae hefyd yn synhwyrol clywed cymaint o safbwyntiau ag sy'n bosibl ac mae'r rhestr o'r rhai hynny a all eich helpu yn hir. Dyma rai pobl a all eich helpu.



Pennaeth Blwyddyn 9 yw Miss Lucy Rogers (Ystafell B12 a'r Porth)
Yr Athrawes Gyrfaoedd yw Miss Lucy Bracegirdle (Yr Harbwr)

CRAIDD

- Cymraeg
- Saesneg
- Gwyddoniaeth (Dwyradd)
- Mathemateg / Rhifedd
- Bagloriaeth Cymru
- Addysg Gorfforol
- Addysg Grefyddol
- Addysg Iechyd
- Dinasyddiaeth
- Datblygiad Personol
- Gyrfaoedd
- Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG)

SUT I DDEWIS

1. Rhaid i bawb astudio Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG) a'r Bagloriaeth Cymru. Gofynnir i chi nodi cyfrwng iaith ar gyfer Gwyddoniaeth a Mathemateg yn ogystal.

2. Dylid dewis un pwnc ym mhob colofn dewis, colofn dewis 2 a 3. Gweler pwynt 4 am golofnau dewis 1 a 4 isod.

3. Anogir y disgyblion i ddewis cyfuniad o bynciau sy'n cynnig amrediad eang o brofiadau:- technolegol, dyneiddiol, ieithyddol, creadigol a galwedigaethol.

4. Mae'r cyrsiau yn y coleg yn rai poblogaidd iawn ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael i bob ysgol. Yn yr achosion lle rydym wedi mynd dros ein cwota – yna dewisir y disgyblion ar sail lefelau CA3 da, ymddygiad da a phresenoldeb da.
   Os ydych yn bwriadu dewis cwrs coleg, mae rhaid rhoid 2il ddewis hefyd, sef pwnc a ddysgir yn yr ysgol yn yr un golofn.

HELP GAN GYRFA CYMRU

PA LWYBR FYDD EICH MAB NEU FERCH YN EI DDEWIS?

Yn ystod Blwyddyn 9 bydd eich mab neu ferch yn gorfod gwneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â phynciau a chymwysterau a allai effeithio ar eu gyrfa yn y dyfodol. Eu dewis hwy yw hwn, ond mae digon o gefnogaeth ar gael i'w helpu gyda'u penderfyniadau. Bydd Gyrfa Cymru mewn partneriaeth gyda'r ysgol yn gweithio gyda nhw er mwyn eu helpu i:

- ystyried pob opsiwn sydd ar gael iddynt
- gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar eu galluoedd, cryfderau a diddordebau
- deall beth sy'n digwydd ym myd gwaith
- ennill sgiliau a phrofiad cysylltiedig â gwaith

Gall rhieni drafod y dewisiadau â Chynghorydd Gyrfa yn ystod nosweithiau rhieni, mewn digwyddiadau gyrfaoedd, neu mae'n bosib iddynt drefnu apwyntiad yn eu Canolfan Gyrfa.

Un adnodd gwerthfawr i'ch helpu chi a'ch mab/merch yw gwefan www.gyrfacymru.llyw.cymru. Yn yr adran ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 i'w helpu gyda dewis opsiynau Cyfnod Allweddol 4 ceir:

- Rhestr wirio i helpu disgyblion i sicrhau eu bod wedi gwneud cymaint â phosibl i baratoi ar gyfer dewis pynciau a chyrsiau.
- Gemau a chwisiau fydd yn helpu disgyblion i ddysgu sgiliau cynllunio gyrfa.
- Gwybodaeth ar yr opsiynau sydd ar gael yn yr ysgol a chyfle i ddewis eu hopsiynau ar-lein.
- Adran lle gall disgyblion ymchwilio i yrfaoedd a chymwysterau gwahanol.
- Rhywle i ddisgyblion gadw gwybodaeth bwysig am eu cyraeddiadau, cynlluniau, diddordebau a sgiliau - a'i ddefnyddio i greu proffil personol.
- Cyngor da – a manylion am le y gallwch chi, a'ch mab/merch gael cymorth a chefnogaeth.

Adrannau'r wefan

- Ydych chi'n barod?
- Yn fy ysgol
  - Beth sy'n digwydd?
  - Cyrsiau
  - Fy opsiynau
- Dewch i ddarganfod
  - Cymwysterau
  - Gyrfaoedd
  - Y byd gwaith
  - Llwybrau Dysgu
- Fy nghynlluniau
  - Gwneud penderfyniadau
  - Creu eich cynllun eich hun
- Fy Man
  - Creu eich e-bortffolio a'ch gwefan eich hun
- Help a chefnogaeth
  - Pwy sy'n gallu helpu?
  - Eich Cynghorydd Gyrfa

CYNGHORYDD GYRFA'R YSGOL: OLWEN JACKSON

BAGLORIAETH CYMRU

Mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn unigryw i Gymru.
Mae'n helpu i baratoi myfyrwyr rhwng 14 a 19 oed ar gyfer y byd gwaith, ar gyfer astudio ymhellach ac ar gyfer bywyd. Caiff cymhwyster Bagloriaeth Cymru ei ddyfarnu i fyfyriwr drwy gyflawni cyfuniad penodedig o gymwysterau.



Tystysgrif Her Sgiliau, sef cymhwyster arloesol sy'n seiliedig ar sgiliau, sydd hefyd yn cyfateb i radd TGAU A*-C sydd wrth wraidd Bagloriaeth Cymru.

Cyflwynir yr Her Sgiliau trwy gyfrwng :-

- Gwersi Her Sgiliau
- Cyfraniadau gan siaradwyr gwadd
- Dyddiau sgiliau a gweithgareddau

Disgwylir i'r myfyrwyr feithrin saith sgil hanfodol sydd mor bwysig ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd:-

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

Rhoddir pwyslais ar ddysgu trwy wneud. Caiff bob myfyriwr gefnogaeth gan diwtor personol fydd yn monitro eu cynnydd dros y ddwy flynedd.

Mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnwys:
Cymwysterau TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith a Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd. Gellir defnyddio elfennau llythrennedd a rhifedd cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru; a
dewis o blith cymwysterau ategol - TGAU, Safon Uwch neu alwedigaethol.
Am fwy o wybodaeth am Fagloriaeth Cymru ewch i: https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/bagloriaeth-cymru/

PYNCIAU 2024-2025

PYNCIAU GORFODOL:	COD PWNC	CORFF DYFARNU	CYMHWYSTER	DARPARWR
Cymraeg	C1	CBAC	TGAU	YDH
Saesneg	Sa	CBAC	TGAU	YDH
Mathemateg / Rhifedd	Ms	CBAC	TGAU	YDH
Gwyddoniaeth (Dwyradd)	Gs	CBAC	TGAU	YDH
Addysg Gysylltiedig â Gwaith	Ag	Agored Cymru	TYSTYSGRIF neu TYSTYSGRIF ESTYNEDIG	YDH
Bagloriaeth Cymru	Bc	CBAC	LEFEL 1/2/ TYSTYSGRIF HER SGILIAU	YDH

PYNCIAU DEWISOL:	COD PWNC	CORFF DYFARNU	CYMHWYSTER	DARPARWR
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	Ab	Agored Cymru	TYSTYSGRIF neu TYSTYGRIF ESTYNEDIG	YDH
Addysg Gorfforol	Pt	CBAC	TGAU	YDH
Addysg Grefyddol	Ys	CBAC	TGAU	YDH
Celf a Dylunio	As	CBAC	TGAU	YDH
Cerddoriaeth	Zs	CBAC	TGAU	YDH
Cyfrifiadureg	Cd	CBAC	TGAU	YDH
Daearyddiaeth	Ds	CBAC	TGAU	YDH
Drama	Ws	CBAC	TGAU	YDH
Bywydeg	Bs	CBAC	TGAU	YDH
Cemeg – **Gwyddoniaeth Driphlyg**	Cs	CBAC	TGAU	YDH
Ffiseg	Ps	CBAC	TGAU	YDH
Hanes	Hs	CBAC	TGAU	YDH
Ieithoedd Modern (Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg)	Fs/Js/Sp	CBAC	TGAU	YDH

PYNCIAU 2024-2025

PYNCIAU DEWISOL:	COD PWNC	CORFF DYFARNU	CYMHWYSTER	DARPARWR
Dylunio a Thechnoleg – Dylunio Cynnyrch	Ts	CBAC	TGAU	YDH
Bwyd a Maeth	Tb	CBAC	TGAU	YDH
Ffasiwn a Thecstiliau	Te	CBAC	TGAU	YDH
Peirianneg L1/2	Pe	CBAC	DYFARNIAD – LEFEL 2	YDH
Technoleg Ddigidol	Tg	CBAC	TGAU	YDH
Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant	Ih	CBAC	TGAU	YDH
Amgylchedd Adeiledig	Xj	CBAC	TGAU	AMLWCH
Gwallt Creadigol a Harddwch	Xh	CITY & GUILDS	LEFEL 2	BODEDERN
Twristiaeth	Tw	CBAC	DYFARNIAD – LEFEL 2	BODEDERN
BTEC Busnes	Bg	EDEXCEL	DYFARNIAD – LEFEL 2	YDH
Pearson BTEC Dyfarniad Cyntaf Lefel 2 mewn Peirianneg	Cq	EDEXCEL	BTEC – LEFEL 2	COLEG MENAI, LLANGEFNI
Technoleg Cerbydol – Lefel 2	Xb	EDEXCEL	BTEC – LEFEL 2	COLEG MENAI LLANGEFNI
Trin Gwallt a Harddwch – Lefel 1	Cb	CITY & GUILDS	LEFEL 1	COLEG MENAI, BANGOR
Adeiladwaith – Lefel 1	Ck	CITY & GUILDS	LEFEL 1	COLEG MENAI, LLANGEFNI
Peirianneg Trin Ceir – Lefel 1	Ce	CITY & GUILDS	NVQ –LEFEL 1	COLEG MENAI, LLANGEFNI
Peirianneg – Lefel 1	Co	CITY & GUILDS	NVQ –LEFEL 1	COLEG MENAI, LLANGEFNI

PYNCIAU GORFODOL

CYMRAEG (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs yn eich helpu i:

- ddatblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu
- allu trafod ag eraill gan gyflwyno gwybodaeth a barn ar lafar ac yn ysgrifenedig
- meddwl yn glir a dadansoddol
- magu hyder a chywirdeb wrth gyfathrebu yn y Gymraeg.

Sut fyddaf yn dysgu?

Bydd y cwrs yn eich helpu i:

- gydweithio â disgyblion eraill.
- dehongli a dadansoddi amrywiaeth o ddarnau darllen.
- cryfhau a gwella cywirdeb iaith.

Manylion y cwrs

Mae hwn yn gwrs di-haen, llinol; h.y. bydd popeth yn cael ei asesu ar ddiwedd blwyddyn 11.

Uned 1 - Asesiad mewnol llafar mewn dwy ran sef:
(i) Cyflwyniad unigol ar sail ymchwil [15%]
(ii) Trafodaeth grŵp – mynegi barn ar destun cyfoes [15%]

Uned 2 - Asesiad allanol: papur arholiad 2 awr fydd yn profi eich gallu i ddarllen ac ysgrifennu gyda phwyslais ar sgiliau disgrifio, creadigol ac esbonio.
Caiff y marciau eu pwysoli fel a ganlyn:
elfen ddarllen = 15%
elfen ysgrifennu = 20%
Er mwyn profi eu sgiliau darllen bydd y disgyblion yn codi, defnyddio a dadansoddi gwybodaeth fydd yn dod o ffynonellau amrywiol.
Bydd y tasgau ysgrifennu yn cynnwys ymarfer prawf-ddarllen fydd yn targedu cywirdeb iaith a thasg ysgrifennu estynedig.

Uned 3 - Asesiad allanol: papur arholiad 2 awr fydd yn profi sgiliau darllen ac ysgrifennu trwy gyfrwng tasgau ymateb i gyfarwyddyd, cyflwyno barn a pherswadio.
Caiff y marciau eu pwysoli fel a ganlyn:
elfen ddarllen = 15%
elfen ysgrifennu = 20%
Fel yn Uned 2, defnyddir ffynonellau amrywiol i brofi'r sgiliau darllen a bydd dwy dasg ysgrifenedig orfodol, un yn gofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno barn ar destun a'r llall yn dasg berswadiol.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi yng Nghymru heddiw. Mae'r TGAU hwn yn sylfaen gwerthfawr ar gyfer cychwyn cwrs pellach boed hynny yn y Coleg neu ym Mlwyddyn 12.

Mae TGAU Cymraeg yn sylfaen angenrheidiol ar gyfer y cwrs Safon Uwch Cymraeg.

Syniadau am swyddi!

Unrhyw swydd lle mae angen cyfathrebu ag eraill e.e.

- diwydiant hamdden a thwristiaeth
- gwasanaethau cymdeithasol
- y cyfryngau
- meddygaeth
- byd addysg
- mân-werthu
- gofal
- gwasanaethau cyhoeddus

Eisiau gwybod mwy?

Gallwch ymweld â gwefan CBAC am gopi llawn o'r maes llafur.

LLENYDDIAETH GYMRAEG (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs yn eich helpu i:

- ddeall a gwerthfawrogi llenyddiaeth o bob math
- medru dehongli a gwerthfawrogi gwahanol ffurfiau a chyflwyno barn
- datblygu'r gallu i uniaethu â phrofiadau a theimladau pobl eraill ac yn sgil hynny rhoi ystyriaeth i'w barn.

Sut fyddaf yn dysgu?

Trwy astudio amrywiaeth o ffurfiau e.e.

- cerddi
- nofelau
- dramâu
- straeon byrion
- ffilm

Manylion y cwrs

Bydd yr arholiad mewn pedair uned gyda phob uned yn cyfrif am 25% o'r cwrs. Bydd dwy haen i'r arholiad a gellir ennill graddau A* - D ar yr Haen Uwch a graddau C – G ar yr Haen Sylfaenol.

Uned 1 Asesiad allanol – papur arholiad 1 awr 15 munud fydd yn profi gwybodaeth y disgyblion o'r cerddi gosod ynghyd â'u gallu i gymharu un o'r cerddi hynny gyda cherdd sydd yn ddieithr iddynt. Bydd modd sefyll yr arholiad hwn naill ai ym mis Ionawr neu ym mis Mai.

Uned 2 Asesiad allanol – papur arholiad 1 awr 15 munud fydd yn profi gwybodaeth y disgyblion o'r nofel osod y buont yn ei hastudio yn ystod y cwrs. Caiff yr arholiad hwn ei gynnig ym mis Mai yn unig.

Uned 3 Asesiad llafar - trafodaeth grŵp yn seiliedig ar gyfrol lenyddol sydd wedi cael ei haddasu yn ffilm. Bydd gofyn i'r disgyblion drafod , dadansoddi a chymharu'r fersiwn brint a'r fersiwn ffilm o'r testun.

Uned 4 asesiad di-arholiad – dau ddarn ysgrifenedig, un yn ymateb yn greadigol i ddrama a'r llall yn ymateb yn feirniadol i ddwy stori fer. Bydd y gwaith paratoi a'r creu yn digwydd yn yr ysgol.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Bydd llwyddiant yn yr arholiad hwn yn rhoi sail gadarn ar gyfer cychwyn cwrs Coleg / Safon Uwch. Bydd y sgiliau y byddwch wedi eu datblygu yn eich galluogi i uniaethu ag eraill a gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau.

Syniadau am swyddi!

Bydd y cymhwyster hwn yn sylfaen dda ar gyfer gyrfa lle mae galw am gyfathrebu, deall safbwyntiau eraill ac uniaethu â sefyllfa rhywun arall e.e.

- byd addysg
- gofal
- y cyfryngau
- gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol
- Llyfrgellydd

Eisiau gwybod mwy?

Gallwch ymweld â gwefan CBAC am gopi llawn o'r maes llafur.

CYMRAEG AIL IAITH (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs yn eich helpu i:

* ddatblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu
* deall a defnyddio'r Gymraeg ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd
* magu hyder a chywirdeb wrth gyfathrebu yn Gymraeg.

Sut fyddaf yn dysgu?

Bydd y cwrs yn eich helpu i:

* gydweithio â disgyblion eraill
* darllen a deall amrywiaeth o ddeunyddiau
* cryfhau a gwella cywirdeb iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Manylion y cwrs

Mae hwn yn gwrs di-haen, unedol h.y. bydd cyfle i sefyll un uned ym mis Ionawr blwyddyn 10.

Uned 1- Ymateb i ddeunydd gweledol.

(i) tasg gwrando - ateb cwestiynau fydd yn codi o glip fideo [15%]

(ii) trafodaeth bâr / grŵp - trafod yr hyn a welwyd yn y clip fideo [10%]

Uned 2 - Cyfathrebu ag eraill – siarad mewn pâr / grŵp o dri am destun fydd wedi cael ei baratoi gan y bwrdd arholi. [25%]

Uned 3 - Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 30 munud. Rhaid ateb amrywiaeth o gwestiynau fydd yn profi sgiliau darllen, ysgrifennu, prawf-ddarllen a chyfieithu darn byr o'r Saesneg i'r Gymraeg. [25% > darllen 15%, ysgrifennu 10%]

Uned 4 - Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 30 munud. Rhaid ateb amrywiaeth o gwestiynau fydd yn profi sgiliau darllen ac ysgrifennu i ddisgrifio a chreu awyrgylch.

[25% > darllen 10%, ysgrifennu 15%]

Eisiau gwybod mwy?

Gallwch ymweld â gwefan CBAC am gopi llawn o'r Maes Llafur.

SAESNEG A LLENYDDIAETH (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs yn eich helpu i ddysgu am y meysydd astudio canlynol: Siarad a Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu.

Sut fyddaf yn dysgu?

Bydd tair gwers yr wythnos ym Mlwyddyn 10 a phedair gwers yr wythnos ym Mlwyddyn 11. Bydd llawer o gyfleoedd i weithio'n annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau. Bydd y dysgu'n digwydd o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Bydd y gwaith yn cynnwys:
Darllen yn eang a defnyddio llyfrgell yr ysgol.
Ymchwilio i bynciau a defnyddio cyfleusterau TGC.
Ymweliadau â'r theatr / gweithdai drama / ymweliadau addysgol.

Beth fydd ei angen arnaf?

Offer ysgrifennu a ffeil
Geiriadur a thesawrws (i ddefnyddio adref).

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

TGAU Iaith Saesneg:

Uned 1. Llafaredd (Asesiad di-arholiad) 20%: Tasg 1 (10%) - Cyflwyniad Ymchwiliad Unigol (40 marc) a Thasg 2 (10%) - Ymateb a Rhyngweithio (40 marc)
Uned 2. Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Adrodd a Dangos (40%) (2 awr)
Adran A (20%) – Darllen (40 marc)
Dealltwriaeth o un testun o leiaf sy'n disgrifio, un testun sy'n adrodd ac un testun sy'n dangos, gan gynnwys testunau parhaus ac amharhaus, wedi'u hasesu trwy ystod o gwestiynau strwythuredig.
Bydd yr adran hon hefyd yn cynnwys tasg olygu.
Adran B (20%) –Ysgrifennu (40 marc)
Un dasg ysgrifenedig
Bydd yr adran hon hefyd yn cynnwys tasg darllen proflenni.
Uned 3. Darllen ac Ysgrifennu: Ymresymol, Darbwyllol a Chyfarwyddol (40%) (2 awr)
Adran A (20%) –Darllen (40 marc)
Dealltwriaeth o un testun o leiaf sy'n ymresymu, un sy'n darbwyllo ac un sy'n cyfarwyddo, gan gynnwys testunau parhaus ac amharhaus, wedi'u hasesu trwy ystod o gwestiynau strwythuredig.
Adran B (20%) – Ysgrifennu (40 marc)
Un dasg ysgrifennu orfodol ymresymol ac un dasg ysgrifennu orfodol ddarbwyllol.
Mae Tystysgrif Lefel Mynediad yn cyfarfod anghenion myfyrwyr y mae eu hanghenion ar ddechrau Blwyddyn 10 yn is na'r safon angenrheidiol i ennill TGAU mewn Saesneg.

TGAU Llenyddiaeth Saesneg:

Uned 1. Rhyddiaith Gwahanol Ddiwylliannau a Barddoniaeth Gyfoes heb ei weld - Arholiad 2 awr 35%; Uned 2. Drama a Rhyddiaith - Arholiad 2 awr 40%; Uned 3. Asesiad dan reolaeth 25%, Detholiad o Farddoniaeth a Shakespeare.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl Blwyddyn 11 gallwch chwilio am waith neu fynd ymlaen i addysg bellach lle gallwch astudio cwrs UG mewn Llenyddiaeth Saesneg. Gall Cynghorwr Gyrfaoedd yr ysgol roi mwy o syniadau i chi.

Syniadau am swyddi!

Newyddiaduraeth/Y Cyfryngau
Cysylltiadau cyhoeddus/ Mân-werthu
Addysgu
Unrhyw swydd lle mae angen cyfathrebu.
Er mwyn mynd ymlaen i addysg uwch, bydd angen o leiaf gradd 'C' ac yn aml gradd 'B' mewn Iaith Saesneg.

Eisiau gwybod mwy?

Am fwy o wybodaeth am y cwrs, edrychwch ar y wefan:http://www.cbac.co.uk

TGAU MATHEMATEG a TGAU RHIFEDD

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i…..

- Ehangu eich gwybodaeth fathemategol yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn modd a fydd yn hybu hyder, mwynhad a dyfalbarhad.
- Defnyddio mathemateg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd bob dydd.
- Datblygu eich sgiliau datrys problemau.
- Datblygu eich sgiliau cymhwyso rhif.

Bydd TGAU Mathemateg – Rhifedd yn…

- Adeiladu ar y lefelau o rifedd a ddisgwylir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 trwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ân yn symud ymlaen oddi yno

ac

- Asesu'r fathemateg y bydd ei hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd, ym myd gwaith ac mewn meysydd cwricwlaidd cyffredinol eraill.

Bydd TGAU Mathemateg yn…

- Ymestyn i gynnwys yr agweddau ar fathemateg y bydd eu hangen ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau gwyddonol neu dechnegol, neu astudiaethau mathemategol pellach.

Sut fyddaf yn dysgu?

Bydd 7 gwers Mathemateg pob bythefnos ym Mlwyddyn 10 ac 11.

Beth fydd ei angen arnaf?

Mae'n angenrheidiol bod gan bob disgybl gyfrifiannell gwyddonol, cwmpawd, pren mesur ac onglydd.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Bydd y cwrs yn cael ei asesu ar ganlyniadau 4 arholiad.

TGAU Mathemateg

	Sylfaenol	**Canolradd/Uwch**	
Uned 1- heb gyfrifiannell	1 awr 30 munud	1 awr 45 munud	Pwysau 50%
Uned 2- hefo cyfrifiannell	1 awr 30 munud	1 awr 45 munud	Pwysau 50%

TGAU Mathemateg – Rhifedd

	Sylfaenol	**Canolradd/Uwch**	
Uned 1 – heb gyfrifiannell	1 awr 30 munud	1 awr 45 munud	Pwysau 50%
Uned 2 – hefo cyfrifiannell	1 awr 30 munud	1 awr 45 munud	Pwysau 50%

Cynnwys

TGAU	**Mathemateg – Rhifedd**	**Mathemateg**	
Cynnwys	Rhif, Mesur ac Ystadegau <u>a rhai agweddau ar</u> Algebra, Geometreg a Thebygolrwydd	<u>Holl</u> gynnwys TGAU Mathemateg Rhifedd	Algebra, Geometreg a Thebygolrwydd <u>ychwanegol.</u>

Strwythur

- Tair haen (uwch, canolradd a sylfaenol)

Uwch	A*	A	B	C				
Canolradd			B	C	D	E		
Sylfaenol					D	E	F	G

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl cwblhau'r cwrs TGAU mae'n bosib astudio'r pwnc ymhellach drwy astudio cwrs Lefel UG/ Uwch ym Mlwyddyn 12 a 13. Os nad ydych eisiau astudio'r pwnc ymhellach, byddwch wedi cael sylfaen dda er mwyn astudio pynciau eraill lle mae defnydd o fathemateg.

Syniadau am swyddi!

Cyfrifydd, Actwari, Rheolydd Trafnidiaeth Awyr, Technegydd Adeiladu, Peiriannydd, Economegydd, Ymgynghorydd Ariannol, Hunangyflogedig, Saer, dim ond i enwi rhai swyddi.

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â'r Adran Fathemateg.

GWYDDONIAETH (TGAU DWYRADD)

Beth fydd ei angen arnaf?

Disgwylir i fyfyrwyr sicrhau bod ganddynt adnoddau ee beiro, pensiliau, pren mesur, cyfrifianellau ymhob gwers Wyddoniaeth sydd wedi ei hamserlennu.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

Haen Uwch – Graddau A* - D; Haen Sylfaenol – Graddau C – G

Uned 1: (Dwyradd) BIOLEG 1

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

15% o'r cymhwyster 60 marc

Uned 2: (Dwyradd) CEMEG 1

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

15% o'r cymhwyster 60 marc

Uned 3: (Dwyradd) FFISEG 1

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

15% o'r cymhwyster 60 marc

Uned 4: (Dwyradd) BIOLEG 2

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

15% o'r cymhwyster 60 marc

Uned 5: (Dwyradd) CEMEG 2

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

15% o'r cymhwyster 60 marc

Uned 6: (Dwyradd) FFISEG 2

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

15% o'r cymhwyster 60 marc

Cymysgedd o gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig, ysgrifennu estynedig a chwestiynau ymateb i ddata gyda rhai ohonynt wedi'u gosod mewn cyd-destun ymarferol. Asesiad mewn haenau.

Uned 7: (Dwyradd) ASESIAD YMARFEROL

10% o'r cymhwyster 60 marc

Asesiad ymarferol sy'n cael ei gynnal yn y canolfannau, ond yn cael ei farcio'n allanol gan CBAC. Cynhelir yr asesiad yn ystod tymor y Gwanwyn (Ionawr – Chwefror). Argymhellir cynnal yr asesiad ym mlwyddyn olaf yr astudiaeth. Asesiad di-haen.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Bydd cwblhau'r cwrs uchod (TGAU Gwyddoniaeth Ddwyradd) yn llwyddiannus ar safon Haen Uwch yn golygu fod myfyrwyr wedi eu paratoi'n addas ar gyfer symud ymlaen i wahanol gyrsiau Gwyddoniaeth Safon Uwch Gyfrannol. Mae'r cwrs TGAU Gwyddoniaeth Ddwyradd gyfwerth â dwy radd werthfawr ar ddiwedd Blwyddyn 11 - bydd gradd C neu uwch yn sicrhau mynediad i'r mwyafrif o gyrsiau UG a chyrsiau addysg bellach eraill.

Syniadau am swyddi!

Mae TGAU Dwyradd mewn Gwyddoniaeth yn cynnig gwybodaeth eang o Fywydeg, Cemeg a Ffiseg, yn ogystal â sgiliau bywyd pwysig, ee sgiliau ymarferol, cyfathrebu, datrys problemau ayyb. Bydd y Cynghorydd Gyrfaoedd yn eich cynghori ymhellach ar eich llwybr gyrfa ddewisol - ond dyma rai enghreifftiau o yrfaoedd sydd â sail wyddonol:

- Meddygaeth; Nyrsio; Deintydd; Fferyllydd
- Technegydd Labordy; Peirianneg; Peirianneg Gemegol
- Milfeddyg; Gwaith Amgylcheddol; Gwyddoniaeth Fforensig

ADDYSG GYSYLLTIEDIG Â GWAITH (AGG)
(TYSTYSGRIF neu TYSTYSGRIF ESTYNEDIG)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?
Bydd y dysgwyr sy'n defnyddio'r cymwysterau hyn yn cael budd o ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth o ran nodi eu llwybr gyrfa a rhoi'r sgiliau iddynt reoli eu bywyd gwaith mewn dyfodol sy'n newid.

Beth yw'r pynciau'r cymwysterau?

- Profiad gwaith
- Ymgeisio am waith
- Dysgu yn y gweithle
- Entrepreneuriaeth a menter
- Gwasanaethau i gwsmeriaid
- Cynllunio gyrfa
- Perfformiad yn y gwaith
- Gweithio gydag eraill
- Iechyd a Diogelwch yn y gwaith
- TGCh yn y gweithle

Sut fyddaf yn cael fy asesu?
Nid oes arholiadau, ond asesu parhaus i gwblhau'r unedau.

Mae'r cwrs Tystysgrif yn cyfateb i 1 TGAU (Gradd B) a'r Tystysgrif Estynedig yn cyfateb i 2 TGAU (Gradd B x 2)

Bwrdd Arholi – Agored Cymru
Am fwy o fanylion, ewch i wefan Agored Cymru, http://agored.cymru/Units-and-Qualifications/Qualification/127723
http://agored.cymru/Units-and-Qualifications/Qualification/127724

PYNCIAU DEWISOL

ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL (TYSTYSGRIF neu TYSTYSGRIF ESTYNEDIG)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?
Bydd y dysgwyr sy'n defnyddio'r cymwysterau hyn yn cael eu paratoi ar gyfer byw eu bywydau fel eu bod yn gallu bod yn unigolion iach, hyderus, cadarn a medrus yn eu cymuned leol a cenedlaethol.

Beth yw'r pynciau'r cymwysterau?

- Datblygu sgiliau, gan gynnwys cadernid, pendantrwydd a meddwl yn feirniadol
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Iechyd a lles emosiynol
- Camddefnyddio sylweddau
- Rhyw a pherthnasoedd
- Bwyd a Maeth
- Cymdeithas a'r gymuned
- Yr amgylchedd a chynaliadwyedd
- Diogelwch cymunedol
- Moeseg a moesoldeb
- Rheolaeth ariannol
- Gweithgarwch corfforol

Sut fyddaf yn cael fy asesu?
Nid oes arholiadau, ond asesu parhaus i gwblhau'r unedau.

Mae'r cwrs Tystysgrif yn cyfateb i 1 TGAU (Gradd B) a'r Tystysgrif Estynedig yn cyfateb i 2 TGAU (Gradd B x 2)

Bwrdd Arholi – Agored Cymru
A fwy o fanylion, ewch i wefan Agored Cymru, http://agored.cymru/Units-and-Qualifications/Qualification/127711 http://agored.cymru/Units-and-Qualifications/Qualification/127712

ADDYSG GORFFOROL (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Drwy astudio TGAU Addysg Gorfforol bydd dysgwyr yn:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r ffactorau sy'n greiddiol i weithgaredd corfforol a chwaraeon ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad
- deall sut mae'r cyflwr ffisiolegol a seicolegol yn effeithio ar berfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- perfformio'n effeithiol mewn gweithgareddau corfforol gwahanol drwy ddatblygu sgiliau a thechnegau a dewis a defnyddio tactegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol
- datblygu eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso i wella perfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- deall y cyfraniad mae gweithgaredd corfforol a chwaraeon yn ei wneud i iechyd, ffitrwydd a lles
- deall dylanwadau diwylliannol cymdeithasol allweddol sy'n gallu effeithio ar gysylltiad pobl â gweithgaredd corfforol a chwaraeon yng Nghymru a'r byd ehangach.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn gyfuniad o wersi theori a gwaith ymarferol (tu mewn a thu allan). Gallwch ddewis astudio'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg.

Beth fydd ei angen arnaf?

Bydd angen i fyfyrwyr ddangos gallu da a brwdfrydedd yn y pwnc. Mae yn angenrheidiol i fyfyrwyr wisgo dillad ymarfer ac esgidiau addas ar gyfer **POB** gweithgaredd ymarferol. Mae angen dod ag offer ysgrifennu priodol i bob gwers theori.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Cyflwyniad i addysg gorfforol

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 50% o'r cymhwyster 100 marc

Asesir dysgwyr drwy amrywiaeth o gwestiynau byr ac estynedig. Bydd y cwestiynau yn seiliedig ar ysgogiadau clyweled a ffynonellau eraill.

Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol

Asesu di-arholiad 50% o'r cymhwyster 100 marc

Asesir dysgwyr mewn **tri** gweithgaredd gwahanol yn rôl perfformiwr - o leiaf **un** gamp ar gyfer unigolyn ac **un** gamp ar gyfer tîm ac **un** arall o'r rhestri cymeradwy o weithgareddau yn ogystal â rhaglen ffitrwydd personol yn gysylltiedig â'r **prif** weithgaredd dewisol.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio addysg gorfforol naill ai ar lefel UG /Safon Uwch neu gymhwyster cenedlaethol BTEC lefel 3. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Syniadau am swyddi!

- Gweithio yn y diwydiant ffitrwydd/hamdden
- Heddlu / Lluoedd Arfog
- Athro/wes Addysg Gorfforol
- Datblygu chwaraeon
- Hyfforddiant ffitrwydd
- Therapi chwaraeon
- Ffisiotherapi

Bydd Ymgynghorydd Gyrfaoedd yr ysgol yn gallu rhoi mwy o syniadau i chi.

Eisiau gwybod mwy?

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Pennaeth Adran, Mr Gethin Long.

ADDYSG GREFYDDOL (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Byddwch yn dysgu am brif nodweddion Cristnogaeth ac Islam ac yn edrych ar themâu moesol fel:

- Creu'r byd – crefydd yntau gwyddoniaeth?
- Sancteiddrwydd bywyd – a yw erthyliad, euthanasia, trawsblannu organau'n dderbyniol?
- Pam ydyn ni'n dioddef?
- A yw Duw yn bodoli?
- Perthnasoedd - cyd-fyw, priodas, godineb, ysgariad, dulliau atal cenhedlu
- Rhagfarn a gwahaniaethu ar sail hil a rhyw
- Hawliau dynol – a ddylai person ddilyn ei grefydd neu'r wladwriaeth?
- Cyfoeth a thlodi

Beth fydd angen arna i?

Offer ysgrifennu a ffeil

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Papur 1

Ar ddiwedd Blwyddyn 10, fe fyddwch yn sefyll un papur arholiad a fydd yn para 2 awr. Bydd hwn yn cyfrif am 50% o'ch canlyniad TGAU terfynol.

Papur 2

Ar ddiwedd Blwyddyn 11 fe fyddwch yn sefyll yr ail bapur arholiad a fydd yn para 2 awr. Bydd hwn yn cyfrif am y 50% arall o'ch canlyniad TGAU terfynol.

Nid oes gwaith cwrs o gwbl.

Syniadau am swyddi!

Y gwasanaeth iechyd

Yr heddlu

Newyddiaduraeth

Gwleidyddiaeth

Gwasanaethau cymdeithasol a grwpiau crefyddol

Addysg

Eisiau gwybod mwy?

Edrychwch am fwy o wybodaeth ar wefan bwrdd arholi CBAC www.cbac.co.uk , neu edrych ar wefan www.reonline.org.uk

CELF A DYLUNIO (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Cewch y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau celf a dylunio a dysgu amrediad o ddulliau ymarferol mewn celf, crefft a dylunio.
- Byddwch yn datblygu eich sgiliau mewn ymchwilio a gwneud.
- Mae astudio celf a dylunio yn ffordd o ddatblygu galluoedd creadigol a dychmygol.
- Byddwch yn dysgu mwy am artistiaid, gweithwyr crefft a dylunwyr eraill o ystod o ddiwylliannau a chyfnodau a defnyddio'r wybodaeth yma i ddatblygu eich gwaith eich hunan.

Sut fyddaf yn dysgu?

Fel eich cyrsiau TGAU eraill byddwch yn mynychu 3 gwers o gelf bob wythnos. Bydd ystod o dasgau a gweithgareddau ymchwilio, gwaith ymarferol ac arfarnu i'w gwneud yn y dosbarth ac fel aseiniadau gwaith cartref. Byddwch yn cael eich annog i gynhyrchu eich syniadau eich hunain mewn ymateb i themâu a thasgau a chadw eich llyfr brasluniau eich hunan. Byddwch hefyd yn ystyried ac yn arfarnu eich syniadau a'ch gwaith wrth iddynt ddatblygu.

Beth fyddaf i angen?

Byddwch angen defnyddiau darlunio sylfaenol – pensil, rwber, miniwr – a byddwch angen dod â nhw i bob gwers. Byddwch angen pensiliau lliw ar gyfer tasgau gwaith cartref ac fe roddir llyfr braslunio i chi ar gyfer gwaith cartref a ffolder yn yr ysgol er mwyn cadw eich gwaith ymarferol.

Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

Gwaith cwrs:

Byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs yn ystod Blwyddyn 10 a hyd at ddiwedd tymor yr Hydref ym Mlwyddyn 11. Caiff eich gwaith cwrs ei asesu yn barhaus gan eich athro/athrawes a staff yr adran Gelf ac wedyn fe'i safonir yn allanol gan y bwrdd arholi. Rhaid i bob gwaith cwrs fod wedi ei gwblhau a'i gyflwyno cyn y Nadolig (bydd eich athro/athrawes yn rhoi'r union ddyddiad i chi.) Eich cyfrifoldeb chi fydd edrych ar ôl eich ffolder gwaith cwrs a'ch llyfr braslunio a dod â'r rhain i bob gwers. Mae'r gwaith cwrs yma yn cyfrif am **60%** o'ch marc TGAU terfynol.

Arholiad:

Ar ddechrau Ionawr byddwch yn derbyn eich papur arholiad ar gyfer yr arholiad terfynol (a elwir weithiau yn brawf a osodir yn allanol). Byddwch yn gweithio ar baratoi a chynllunio gwaith yn y dosbarth ac ar dasgau gwaith cartref tuag at yr arholiad. Mae'r arholiad 10 awr yn digwydd dros 2 ddiwrnod, fel arfer yn ystod mis Mawrth.
Caiff yr arholiad (a'r gwaith paratoi) eu hasesu gan staff yr adran Gelf ac wedyn caiff ei safoni yn allanol gan y bwrdd arholi, a bydd hyn yn cyfrif am **40%** o'ch TGAU terfynol.

Wedi'r arholiad mae unrhyw waith na orffennwyd yn gynt angen cael ei gwblhau, fel arfer erbyn diwedd Ebrill, a bydd safonwr yn ymweld â'r ysgol i wirio'r marciau arholiad a gwaith cwrs.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Yn dilyn Blwyddyn 11 efallai y byddwch yn dewis aros ymlaen yn yr ysgol i astudio'r cwrs Celf Lefel UG/A.
Ar y llaw arall, mae Coleg Menai yn cynnig ystod o gyrsiau mewn Celf a Dylunio.

Syniadau am swyddi!

- · Pensaer
- · Dylunydd Mewnol
- · Dylunydd Ffasiwn
- · Dylunydd cynnyrch
- · Animeiddiwr ffilm
- · Dylunydd Gemwaith
- · Darlunydd
- · Artist Graffig
- · Dylunydd Gwefannau
- · Ffotograffydd
- · Dylunydd Theatr
- · Dylunydd Gwisgoedd

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Adran Gelf neu eich ymgynghorydd gyrfa neu edrychwch am fwy o wybodaeth ar wefan bwrdd arholi CBAC www.**cbac**.co.uk , gwefan *bitesize* y BBC www.**bbc**.co.uk/**gcse**bitesize/ neu edrych ar www.gyrfacymru.com

CERDDORIAETH (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Byddwch yn:

- Dysgu am gerddoriaeth o wahanol genres
- Datblygu sgiliau perfformio ar offeryn neu ganu
- Datblygu sgiliau cyfansoddi trwy ddefnyddio meddalwedd
- Dysgu mwynhau cerddoriaeth o bob math
- Dysgu cydweithio a pherfformio gydag eraill
- Datblygu creadigrwydd a hunan hyder
- Datblygu sgiliau gwrando a gwerthuso cerddoriaeth.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mewn cyfres o dair gwers yr wythnos sy'n gyfuniad o berfformio, cyfansoddi cerddoriaeth, gwrando ar gerddoriaeth ac arfarnu cerddoriaeth.

Beth fydd ei angen arnaf?

Offeryn neu lais, neu chwarae allweddell/offerynnau'r dosbarth.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Asesir y 3 elfen:
Perfformio
Cyfansoddi
Arfarnu
Asesir y cyfansoddi a'r perfformio gan eich athrawes a'r bwrdd arholi, a'r arfarnu gan y bwrdd arholi'n unig.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Gallwch fynd ymlaen i astudio Safon UG a Safon Uwch mewn Cerdd gan ganolbwyntio ar eich arbenigedd, megis llais neu chwarae offeryn.

Syniadau am swyddi!

- Athro/athrawes cynradd-mantais o fedru cynnig arbenigedd cerdd.
- Gweithio mewn stiwdio
- Gweithio yn y cyfryngau
- Therapydd Cerdd
- Therapydd Galwedigaethol
- Gweithio mewn theatr
- Peiriannydd Sain
- Aelod o grŵp
- Athro/athrawes Offerynnol

Eisiau gwybod mwy?

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Gerdd.

CYFRIFIADUREG (TGAU)

Beth fydda i'n dysgu?

Mae cyfrifiadura o bwysigrwydd mawr iawn i'r economi, ac mae rôl Cyfrifiadureg fel disgyblaeth ynddo'i hunan, fel pwnc 'tanategol' ar draws gwyddoniaeth a pheirianneg, yn tyfu'n gyflym. Mae angen i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddilyn gyrfa mewn Cyfrifiadureg os ydynt yn dymuno gwneud, ac a fydd hefyd yn eu cynorthwyo i ennill sgiliau gwerthfawr am oes - er enghraifft, mewn arloesedd, rhesymu, rhesymeg, dyfeisgarwch, manwl gywirdeb, datrys problemau ac eglurder. Bydd y sgiliau hyn yn eu galluogi i ddod yn awduron offer cyfrifiadura yn hytrach na dim ond defnyddwyr.

Mae cwrs mewn Cyfrifiadureg yn cynnig cyfle unigryw i ymgeiswyr ennill dealltwriaeth o sut mae cyfrifiaduron yn gweithio a chreu rhaglenni cyfrifiadurol cywiro diffygion ar gyfer pwrpasau go iawn yn ymwneud â'u diddordebau personol. Mae Cyfrifiadureg wedi datblygu sgiliau meddwl rhaglennu a chyfrifiadura, sy'n gynyddol berthnasol i amrywiaeth eang o swyddi. Mae cyflogwyr eisiau gweithwyr sydd â dealltwriaeth o egwyddorion cadarn a ellir eu cymhwyso i dechnolegau sy'n newid yn gyflym.

Sut fydda i'n dysgu?

- Bydd tair gwers yr wythnos.
- Gallwch ddewis astudio'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg.

Beth fydda i angen?

- Diddordeb mewn Cyfrifiadura
- Meddwl ymchwiliol a chymhelliant i weithio'n annibynnol
- Ymrwymiad i gyfarfod terfynau amser gwaith cwrs
- Mae'n syniad da i gael co' bach USB ar gyfer trosglwyddo gwaith
- Er nad yw'n hanfodol, byddai cael cyfrifiadur adref yn fanteisiol.
- Yn ddelfrydol, dylech gael lefel 7 mewn Mathemateg

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Uned 1	Deall Cyfrifiadureg (100 marc)	50% Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud	Mae'r uned hon yn ymchwilio i galedwedd, gweithrediadau rhesymegol, cyfathrebu, cynrychioli data a mathau data, systemau gweithredu, egwyddorion rhaglennu, peirianneg meddalwedd, llunio rhaglenni, diogelwch a rheoli data ac effeithiau technoleg ddigidol ar y gymdeithas ehangach.
Uned 2	Meddwl Cyfrifiannol a Rhaglennu (60 marc)	30% Arholiad ar-sgrin: 2 awr	Mae'r uned hon yn ymchwilio i ddatrys problemau, algorithmau a lluniadau rhaglennu, ieithoedd rhaglennu, strwythurau data a mathau data a diogelwch a dilysiad.
Uned 3	Datblygu Meddalwedd (80 marc)	20% Asesiad di-arholiad: 20 awr	Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr lunio datrysiad wedi'i raglennu i broblem. Rhaid iddynt ddadansoddi'r broblem, llunio datrysiad i'r broblem, datblygu'r datrysiad terfynol wedi'i raglennu, profi'r datrysiad a rhoi awgrymiadau ar gyfer datblygu'r datrysiad ymhellach. Wrth lunio'r datrysiad mae'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu log mireinio sy'n dangos tystiolaeth o ddatblygiad y datrysiad.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

- Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig AS/lefel A mewn TGCh yn unig ond gallem ystyried Cyfrifiadureg petai ofyn am hynny.

Syniadau am swyddi

- Rhaglennydd
- Dylunydd/Datblygydd Gwe
- Datblygydd Gemau Cyfrifiadurol
- Datblygydd Meddalwedd
- Peiriannydd Rhwydwaith
- Dadansoddwr Systemau
- Rheolwr Rhwydwaith
- Gweinyddwr Cronfa Ddata
- Technegydd Cefnogaeth TG
- Ymchwilydd Cyfryngau
- Clerc Cofnodi Data
- Athro/Athrawes Cyfrifiadureg

Eisiau gwybod mwy? Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Miss Glenda Haf Jones, Pennaeth Adran.

DAEARYDDIAETH (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Yn ystod y cwrs fe gewch gyfle i ddysgu am: nodweddion ffisegol a dynol Cymru, afonydd ac arfordiroedd, llifogydd, poblogaeth a chysylltiadau gwledig-trefol, peryglon tectonig, tywydd a hinsawdd, datblygiad byd eang a sialensiau amgylcheddol.

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu am:

- Llefydd, amgylcheddau a materion mewn gwledydd o amgylch y byd.
- Lleisio eich barn.
- Cyfathrebu a defnyddio TGC.
- Datrys problemau.
- Gweithio'n annibynnol.
- Gwaith maes
- Eich cyfrifoldeb fel dinesydd byd-eang.

Sut fyddaf yn dysgu?

Bydd 6 gwers bob pythefnos ym mlwyddyn 10 a 5 gwers bob pythefnos ym mlwyddyn 11. Mae 2 ddiwrnod gwaith maes yn ystod y cwrs.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Mae dau bapur arholiad sydd werth 40% yr un, un yn seiliedig ar waith blwyddyn 10 ac un ar waith blwyddyn 11. Mae'r gwaith cwrs yn werth 20% ac wedi ei seilio ar ddau ddiwrnod gwaith maes.

TGAU Daearyddiaeth CBAC

Uned 1 (40%)	**Uned 2 (40%)**	**Gwaith Cwrs (20%)**
Tirweddau a phrosesau ffisegol	Y Tywydd a hinsawdd ac ecosystemau	Adroddiad yn trafod eu profiadau o ddau ddiwrnod gwaith maes mewn gwahanol amgylcheddau. Rhaid ei gwblhau yn yr ysgol dan amodau arholiad. CBAC fydd yn gosod y themâu.
Cysylltiadau trefol-gwledig	Materion datblygiad	
Opsiynau (i'w trafod gyda'r disgyblion): Peryglon tectonig **neu** Beryglon arfordirol a'u rheolaeth.	Opsiynau (i'w trafod gyda'r disgyblion): Materion datblygiad cymdeithasol **neu** sialensiau amgylcheddol.	

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl Blwyddyn 11 gallech fynd ymlaen i astudio Daearyddiaeth Safon Uwch. Ar ôl hyn i gyd byddwch yn barod i'r byd gwaith neu i fynd ymlaen i astudio gradd mewn Daearyddiaeth neu Astudiaethau'r Amgylchedd.

Syniadau am swyddi!

- Peilot
- Swyddog Cadwraeth neu Warden Parc Cenedlaethol
- Swyddog Cynllunio
- Trefnwr Teithiau

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â'ch athrawes Daearyddiaeth neu holwch mwy drwy ein safle Trydar (@YDHDaear)

DRAMA (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs yn eich helpu i ddysgu:

- Am eich cryfderau a'r hyn sydd angen ei ddatblygu wrth ymwneud â phobl
- Gwerthfawrogi perfformiadau personol a grŵp
- Dealltwriaeth o berfformiadau theatrig proffesiynol
- Datblygu hunan hyder a'r gallu i weithio ag eraill.

Sut fyddaf yn dysgu?

Dysgir y cwrs yn Theatr yr Ysgol ac mewn ystafell ddosbarth. Bydd y gwersi yn gyfuniad o'r ymarferol a'r theori ac fe fydd sawl cyfle i ymweld â theatrau proffesiynol i wylio perfformiadau o safon ac i ddysgu am grefft y llwyfan. Cynigir y cwrs drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

Beth fydd ei angen arnaf?

Diddordeb ym maes y Theatr, brwdfrydedd a'r gallu i gydweithio!

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Mae'r cwrs yn gwrs TGAU llawn sydd yn cael ei rannu i fodiwlau. Rhoddir pwyslais mawr ar waith ymarferol a'r gwaith ysgrifenedig sydd yn gysylltiedig.

Uned 1 – Creu Perfformiad – Dyfeisio -
Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. 60 marc (**40%**)
Uned 2 – Perfformiad o destun -
Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n allanol gan arholwr ymweld. 60 marc (**20%**)
Uned 3 – Dehongli Theatr - Arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud:
Adran A – dadansoddi un darn gosod o safbwynt actor, cyfarwyddwr a dylunydd;
Adran B - ysgrifennu adroddiad ar berfformiad byw a welwyd yn ystod y cwrs. 60 marc (**40**%)

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl Blwyddyn 11, gellir dilyn cwrs Safon Uwch Gyfrannol mewn Drama ac Astudiaethau Theatr ym Mlwyddyn 12 ac yna Safon Uwch ym Mlwyddyn 13.

Syniadau am swyddi!

- Unrhyw waith sydd yn ymwneud â phobl!
- Actor
- Cyfreithiwr
- Therapydd Drama
- Athro Drama
- Cyflwynydd teledu
- Ymchwilydd ac ati

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â'r adran Ddrama.

GWYDDONIAETH DRIPHLYG (TGAU)

TGAU BIOLEG (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

Haen Uwch – Graddau A* - D; Haen Sylfaenol – Graddau C – G

Uned 1: CELLOEDD, SYSTEMAU ORGANAU ac ECOSYSTEMAU

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 45 munud, 45% o'r cymhwyster (80 marc)

Uned 2: AMRYWIAD, HOMEOSTASIS a MICRO-ORGANEBAU

Arholiad: 1 awr 45 munud, 45% o'r cymhwyster (80 marc)

Cymysgedd o gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig, ysgrifennu estynedig a chwestiynau ymateb i ddata gyda rhai ohonynt wedi'u gosod mewn cyd-destun ymarferol. Asesiad mewn haenau.

Uned 3: ASESIAD YMARFEROL

10% o'r cymhwyster (30 marc)

Asesiad ymarferol sy'n cael ei gynnal yn y canolfannau, ond yn cael ei farcio'n allanol gan CBAC. Cynhelir yr asesiad yn ystod tymor y Gwanwyn (Ionawr – Chwefror). Argymhellir cynnal yr asesiad ym mlwyddyn olaf yr astudiaeth. Asesiad di-haen.

TGAU CEMEG (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

Haen Uwch – Graddau A* - D; Haen Sylfaenol – Graddau C – G

Uned 1: SYLWEDDAU CEMEGOL, ADWEITHIAU ac ADNODDAU HANFODOL

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud, 45% o'r cymhwyster (80 marc)

Uned 2: BONDIO CEMEGOL, CYMHWYSO ADWEITHIAU CEMEGOL a CHEMEG ORGANIG)

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud, 45% o'r cymhwyster (80 marc)

Cymysgedd o gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig, ysgrifennu estynedig a chwestiynau ymateb i ddata gyda rhai ohonynt wedi'u gosod mewn cyd-destun ymarferol. Asesiad mewn haenau.

Uned 3: ASESIAD YMARFEROL

10% o'r cymhwyster (30 marc)

Asesiad ymarferol sy'n cael ei gynnal yn y canolfannau, ond yn cael ei farcio'n allanol gan CBAC. Cynhelir yr asesiad yn ystod tymor y Gwanwyn (Ionawr – Chwefror). Argymhellir cynnal yr asesiad ym mlwyddyn olaf yr astudiaeth. Asesiad di-haen.

TGAU FFISEG (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

Haen Uwch – Graddau A* - D; Haen Sylfaenol – Graddau C – G

Uned 1: TRYDAN, EGNI a THONNAU

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 45 munud, 45% o'r cymhwyster (80 marc)

Uned 2: GRYMOEDD, GOFOD ac YMBELYDREDD

Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 45 munud, 45% o'r cymhwyster (80 marc)

Cymysgedd o gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig, ysgrifennu estynedig a chwestiynau ymateb i ddata gyda rhai ohonynt wedi'u gosod mewn cyd-destun ymarferol. Asesiad mewn haenau.

Uned 3: ASESIAD YMARFEROL

10% o'r cymhwyster (30 marc)

Asesiad ymarferol sy'n cael ei gynnal yn y canolfannau, ond yn cael ei farcio'n allanol gan CBAC. Cynhelir yr asesiad yn ystod tymor y Gwanwyn (Ionawr – Chwefror). Argymhellir cynnal yr asesiad ym mlwyddyn olaf yr astudiaeth. Asesiad di-haen.

HANES (TGAU)

Pam astudio Hanes?

- Dylir astudio hanes er mwyn dysgu sut a pham bod y byd a'i bobl fel y maent heddiw.
- Mae myfyrwyr hanes yn unigolion sydd wedi datblygu dealltwriaeth o'r gorffennol a'r dyfodol.
- Mae hanes yn eich dysgu i feddwl a phrosesu gwybodaeth.
- Mae hanes yn rhoi'r arfau i chi ar gyfer dadansoddi ac egluro problemau'r gorffennol, maent yn arfau hanfodol er mwyn datrys problemau sydd yn digwydd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Trwy astudio hanes cewch y sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Pa sgiliau byddaf yn ei ddysgu?

- Mynegi barn.
- Ymchwilio am wybodaeth.
- Datblygu ymwybyddiaeth o sut i astudio'r gorffennol drwy astudio ffynonellau a dehongliadau.
- Datblygu'r gallu i ofyn cwestiynau perthnasol.
- Paratoi a chynhyrchu Aseiniad Mewnol wrth ddadansoddi a gwerthuso ffynonellau am y gorffennol.
- Sylweddoli bod eich gwersi Hanes yn eich helpu i ddeall y presennol.

Pa gyrsiau byddaf yn ei astudio?

- Uned 1 (25%) – Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad 1930-1951
- Uned 2 (25%) – UDA: Gwlad Gwahaniaethau, 1910-1929
- Uned 3 (30%) – Newidiadau mewn trosedd a chosb, c.1500 i'r diwrnod presennol
- Uned 4 (20%) – Asesiad dan Reolaeth

Sut fyddaf yn dysgu?

Byddwch yn ymchwilio i bynciau drwy ddarllen gwerslyfrau, datrys problemau, ymchwilio i ffynonellau, gwneud gwaith ymchwil, gwylio ffilmiau a rhaglenni dogfennol hanesyddol, gweithio mewn grwpiau a defnyddio TGCh. Bydd llawer o gyfleoedd i adeiladu ar eich sgiliau allweddol, yn enwedig Cyfathrebu, TG a Sgiliau Meddwl.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Gallwch barhau i astudio Hanes ar gyfer Safon UG neu Safon Uwch neu ddefnyddio eich sgiliau i gael swydd neu ddilyn cwrs yn y coleg.

Syniadau am swyddi!

Mae haneswyr da fel arfer yn gwneud cyfreithwyr, gwleidyddion, rheolwyr, newyddiadurwyr, archeolegwyr, dylunwyr gwisgoedd, swyddogion datblygu economaidd, penseiri, dylunwyr amgueddfa ac athrawon da; a llawer iawn mwy!

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â'r Adran Hanes – edrychwch ar y pethau sydd wedi eu harddangos ar y waliau, edrychwch yn y gwerslyfrau ac ar wefan yr ysgol, a siaradwch gyda'ch athro/athrawes Hanes.

IEITHOEDD MODERN (TGAU)
FFRANGEG neu/ac ALMAENEG neu/ac SBAENEG

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Cynllunio a dadansoddi.
- Datblygu eich sgiliau cyfathrebu.
- Datblygu eich sgiliau TGC drwy ddarganfod, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.
- Cymharu eich diwylliant, iaith a chymuned eich hun gyda rhai gwledydd a chymunedau'r iaith darged.
- Datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd yng nghymdeithas fyd-eang yr unfed ganrif ar hugain a byd gwaith.

Sut fyddaf yn dysgu?

Byddwch yn dysgu sut i weithio mewn parau neu grwpiau i gwblhau tasgau neu siarad yn yr iaith darged. Byddwch yn cymryd rhan mewn gemau iaith, yn datrys problemau a defnyddio TGC.

Beth fydd ei angen arnaf?

Bydd angen i chi fod yn barod i gymryd rhan ac ymuno yn y tasgau.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn sefyll pedwar arholiad ar ddiwedd bl.11. Bydd pob arholiad werth 25% o'r radd TGAU terfynol.

UNED 1 : Llafar (25%)	Prawf Llafar: 7-9 munud (Haen Sylfaenol) 10-12 munud (Haen Uwch)
UNED 2 : Gwrando (25%)	Arholiad Ysgrifenedig: 35 munud (Haen Sylfaenol) 45 munud (Haen Uwch)
UNED 3 : Darllen (25%)	Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr (Haen Sylfaenol) 1 hour 15 munud (Haen Uwch)
UNED 4 : Ysgrifennu (25%)	Arholiad Ysgrifenedig: 1 hour 15 munud (Haen Sylfaenol) 1 hour 30 munud (Haen Uwch)

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl ennill TGAU mewn Ffrangeg a/neu Almaeneg cewch y cyfle i fynd ymlaen i astudio ar lefel UG a lefel A. Mae llawer o gyrsiau pellach yn cynnig y cyfle i dreulio amser dramor os oes gennych gymhwyster TGAU mewn iaith dramor.

Syniadau am swyddi!

Os ydych yn dysgu iaith dramor, nid yw hynny o angenrheidrwydd yn golygu eich bod yn mynd i weithio fel athro/athrawes neu gyfieithydd; mae llawer o opsiynau eraill ar gael:
Peirianneg, gweinyddiaeth busnes a chyllid, cyfryngau creadigol a chyfryngau, lletygarwch ac arlwyo, TGC, gweithio ar y tir/gwaith amgylcheddol, gweithgynhyrchu, gwasanaethau cyhoeddus, adwerthu, chwaraeon a hamdden, teithio a thwristiaeth, bioleg môr, coedwigaeth, ayyb.

Eisiau gwybod mwy?

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag aelod o staff yr Adran Ieithoedd Modern.

DYLUNIO A THECHNOLEG – DYLUNIO CYNNYRCH (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sut i ddylunio mewn amrywiaeth o gyfryngau
- Sut i wneud cynnyrch mewn llawer o ddefnyddiau
- Defnydd o CAD - y feddalwedd modelu 3D diwydiannol - Solidworks 2016 (Safon ddiwydiannol)
- Defnyddio CAM – Defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf yn cynnwys printio 3D a thorri â laser

Sut fyddaf yn ei ddysgu?

- 3 gwers yr wythnos
- gweithgareddau ymarferol yn bennaf (Blwyddyn 10)
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer arholiad (Blwyddyn 10 ac 11)
- tasgau gwaith cwrs ym Mlwyddyn 10
- Asesiad di-arholiad (ADA) [prif brosiect dylunio a gwneud] ym Mlwyddyn 11.

Beth fydd ei angen arnaf?

- Brwdfrydedd a chwilfrydedd am ddylunio a gwneud!
- Parodrwydd i ddyfalbarhau er mwyn llwyddo

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Bydd asesiad Blwyddyn 10 yn bennaf yn farciau cronnus mewnol i dracio cynnydd.
Bydd Blwyddyn 11 yn debyg i Flwyddyn 10 ond bydd y dasg Asesiad Di-arholiad yn cael ei safoni'n allanol ac arholiad diwedd cwrs yn cael ei asesu gan arholwyr CBAC.

Uned 1: Dylunio a Thechnoleg yn yr 21ain Ganrif – 2 awr

- Arholiad ysgrifenedig – 50% o'r TGAU.

Uned 2: Tasg dylunio a gwneud – oddeutu 35 awr

- Tasgau Asesiad Di-arholiad – 50% o'r TGAU.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs?

- Mae'r cwrs yn baratoad da ar gyfer y cwrs Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch Safon UG a Safon Uwch a gynigir yn yr ysgol.
- Bydd y sgiliau rydych wedi eu dysgu yn eich galluogi i ddilyn cyrsiau eraill, e.e. Peirianneg Fecanyddol neu waith yn y diwydiant adeiladu.

Syniadau am swyddi!

· Dylunydd Cynhyrchion
· Peiriannydd
· Gemydd
· Pensaer
· Dylunydd Graffeg
· Dylunydd Theatr
· Dylunydd/Gwneuthurwr Dodrefn
· Dylunydd Cerbydau

Eisiau gwybod mwy?

- Am fwy o fanylion am y cyrsiau a'r opsiynau, cysylltwch â Mr Dilwyn Jones, Miss Nia W Davies neu Miss Lowri Edwards.
- Siaradwch gyda'r athrawes Gyrfaoedd

BWYD A MAETH (TGAU)

Beth fyddaf i'n ddysgu?

Bydd y cwrs yn eich cynorthwyo i ennill dealltwriaeth o:

- Yr angen i weithio'n ddiogel wrth gynllunio, paratoi a choginio amrywiaeth o nwyddau bwyd yn defnyddio gwahanol dechnegau ac offer coginio.
- Y berthynas rhwng diet, maeth ac iechyd, gan gynnwys effeithiau seicolegol diet ac iechyd gwael.
- Y dylanwadau economaidd, amgylcheddol a moesegol ar argaeledd bwyd, diet a dewisiadau iechyd.
- Priodweddau ymarferol a maethol bwyd, i gynnwys ystyriaethau diogelwch bwyd wrth baratoi, storio, coginio a gweini bwyd.
- Ystod o wahanol gynhwysion a phrosesau o wahanol rannau o'r byd (Cymreig traddodiadol, Prydeinig a rhyngwladol) ac i ysbrydoli syniadau newydd neu addasu rysetiau presennol.
- Priodweddau ymarferol a nodweddion cemegol bwyd yn ogystal â gwybodaeth gadarn o werth maethol bwydydd a diodydd.

Sut fyddaf i'n dysgu?

Mae rhan fawr o'r cwrs wedi'i roi i waith ymarferol (paratoi a choginio bwyd) – **a bydd disgwyl i ddisgyblion ddarparu cynhwysion yn rheolaidd ar gyfer y math hwn o waith.**

Mae yna hefyd waith theori ac arddangosiadau gan athrawon.
Bydd peth o'r gwaith ymarferol yn arbrofol ei natur ac yn golygu cynllunio a darganfod effeithiau addasu cynhwysion a rysetiau ar y deilliannau terfynol.

Beth fyddaf i angen?

Fel y soniwyd eisoes, bydd disgyblion angen dod â chynhwysion ar gyfer gwaith ymarferol yn rheolaidd.
Bydd disgwyl i fyfyrwyr wisgo dillad gwarchodol yn ystod gwaith ymarferol a bydd yr ysgol yn darparu ffedogau a hetiau glân i'r disgyblion.

Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

Mae Asesiad Ffurfiol yn cynnwys dwy dasg ymchwilio ymarferol (a osodir gan y bwrdd arholi a'i asesu'n fewnol) ac arholiad terfynol.

Asesiad 1 = 20% o'r cwrs - Blwyddyn 10 – (10 awr dan arolygaeth - 2,000-2,5000 gair)
Asesiad 2 = 40% o'r cwrs - Blwyddyn 11- (bwydlen yn cynnwys 3 saig a chyfwydydd – 15 awr dan arolygaeth).
Arholiad terfynol = 40% papur

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs?

Gall myfyrwyr barhau i astudio Arlwyo yng Ngholeg Menai, neu ddod o hyd i waith o fewn y diwydiant fwyd. Gellir hefyd ddychwelyd i Ysgol David Hughes i ddilyn cyrsiau lefel U.

Syniadau am swyddi!

- Dietegydd/Maethegydd
- Datblygiad Cynnyrch Bwyd
- Athro/Athrawes
- Cynhyrchydd Bwyd

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â Miss Lyn Davies, Mrs Mandy Florence neu Miss Lowri Edwards.

FFASIWN A THECSTILIAU (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Diwydiannau ffasiwn a thecstiliau a'r broses o ddylunio a gwneud dillad a chynhyrchion tecstil.
- Am wahanol ffabrigau a defnyddiau a sut maent yn cael eu gwneud, beth yw eu priodweddau a pha gynhyrchion y gellir eu gwneud ohonynt.
- Am y gwahanol ddulliau o roi lliw ar ffabrigau - clymu a llifo, printio, paentio sidan, ayyb.
- Am addurno ffabrigau gan ddefnyddio amrediad eang o dechnegau - appliqué, brodwaith, ayyb.
- Sut mae cynnyrch deunyddiau yn cael eu creu.

Sut fyddaf yn ei ddysgu?

- 3 gwers yr wythnos
- Gweithgareddau ymarferol fwyaf (Blwyddyn 10)
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer eistedd arholiad (Blwyddyn 10 ac 11)
- Tasgau gwaith cwrs ym Mlwyddyn 10
- Asesiad Di-arholiad (ADA) [prif ddylunio a gwneud prosiect] ym Mlwyddyn 11.

Beth fydd ei angen arnaf?

Nid oes anghenion arbennig ond mae diddordeb mewn ffasiwn, meddwl creadigol a'r gallu i luniadu yn helpu.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Bydd asesiad Blwyddyn 10 yn bennaf yn farciau cronnus mewnol i dracio cynnydd.
Bydd Blwyddyn 11 yn debyg i Flwyddyn 10 ond bydd y tasgau Asesiad Di-arholiad yn cael eu safoni'n allanol ac arholiad diwedd cwrs yn cael ei asesu gan arholwyr CBAC.

Uned 1: Dylunio a Thechnoleg yn yr 21ain Ganrif – 2 awr

- Arholiad ysgrifenedig – 50% o'r TGAU.

Uned 2: Tasg dylunio a gwneud – oddeutu 35 awr

- Tasgau Asesiad Di-arholiad – 50% o'r TGAU.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs?

Mae'r cwrs yn sylfaen dda ar gyfer y cwrs Dylunio a Thechnoleg (Dylunio Cynnyrch) sydd yn cael ei gynnig yn Lefel UG a Lefel A yn yr ysgol.

Syniadau am swyddi!

- Dylunydd Ffasiwn
- Manwerthu
- Dylunio cynnyrch
- Dylunio ar gyfer y theatr
- Addysgu
- Dylunydd Tecstiliau

Eisiau gwybod mwy? Cysylltwch â Miss Lyn Davies, Mrs Mandy Florence neu Miss Lowri Edwards.

PEIRIANNEG (CBAC DYFARNIAD LEFEL 1/2 MEWN PEIRIANNEG)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mae'r cymhwyster yn cynnwys 3 uned:

Uned 1: Gweithgynhyrchu cynhyrchion peirianegol

Dyma'r cyfle i ddehongli mathau gwahanol o wybodaeth beirianegol er mwyn cynllunio sut i weithgynhyrchu cynhyrchion peirianegol.
Byddwch chi'n meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â defnyddio amrywiaeth o offer a chyfarpar peirianegol er mwyn gweithgynhyrchu a phrofi cynnyrch terfynol.

Uned 2: Dylunio cynhyrchion peirianegol

Byddwch chi'n archwilio sut mae cynnyrch wedi'I beiriannu yn cael ei addasu a'i wella dros amser.
Mae'n cynnig y cyfle i gymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth i addasu cydran, elfen neu ddarn o'r cynnyrch sydd eisoes yn bodoli y byddwch chi wedi'i weithgynhyrchu ar gyfer Uned 1.

Uned 3: Datrys problemau peirianegol

Byddwch chi'n cael eich cyflwyno i amrywiaeth o ystyriaethau sy'n effeithio ar ddyluniad peirianegol a sut mae peirianneg fodern wedi effeithio ar fywyd modern yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymdeithas yn gyffredinol.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch chi'n cael eich asesu drwy gyfuniad o arholiadau a gwaith project.

Bydd Uned 1 yn cynnwys cynhyrchu cynnyrch gweithgynhyrchu, a fydd yn werth 40% o'r cymhwyster. Gall hyn amrywio o erfyn llaw sylfaenol i beiriannau cymhleth. Bydd angen i'r cynnyrch fod wedi'i ddatblygu dros gyfnod o 20 awr.

Bydd Uned 2 hefyd yn cael ei hasesu drwy waith project a bydd yn werth 20% o'r cymhwyster.
Yma byddwch chi'n cymhwyso eich sgiliau datrys problemau i ateb briff a chynhyrchu datrysiad.
Byddwch chi'n cynhyrchu eich datrysiad dros gyfnod o 10 awr.

Yn Uned 3, byddwch chi'n gwneud un arholiad, sy'n werth 40% o'ch cymhwyster. Bydd yr arholiad yn 1 awr a 30 munud o hyd. Bydd yr arholiad yn cynnwys cwestiynau dewis lluosog, a chwestiynau atebion byr ac estynedig.

Pa sgiliau fyddaf y neu datblygu?

Byddwh chi'n datblygu amrywiaeth o sgiliau sy'n atyniadol I gyflogwyr, colegau a phrifysgolion, gan gynnwys:

- Cyfathrebu
- Cymryd cyfrifoldeb
- Dysgu'n annibynnol
- Meddwl yn feirniadol
- Rheoli amser
- Ymchwil

Gyrfaoedd ym maes Peirianneg?

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd ym maes peirianneg, er enghraifft:

Peiriannydd amgylcheddol	Peiriannydd awyrofod
Peiriannydd biofeddygol	Peiriannydd cynnyrch
Peiriannydd cyfrifiadurol	Peiriannydd mecanyddol
Peiriannydd morol	Peiriannydd sifil/adeileddol
Peiriannydd trydanol/electronig	

TECHNOLEG DDIGIDOL (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y fanyleb CBAC TGAU mewn Technoleg Ddigidol yn galluogi dysgwyr i:

- ddod yn annibynnol, yn hyderus ac yn wybodus wrth ddefnyddio technolegau digidol newydd, technolegau sy'n bodoli eisoes a thechnolegau datblygol
- meithrin gwybodaeth am wahanol systemau technoleg ddigidol a ddefnyddir mewn amrywiaeth o sectorau galwedigaethol
- deall effaith bosibl technolegau digidol ar unigolion a chymdeithas ehangach a'r ffyrdd y gallant arwain at newid
- meithrin sgiliau wrth drefnu a dadansoddi data er mwyn adnabod tueddiadau a chynulleidfaoedd
- dod yn wneuthurwyr cynhyrchiol digidol, mewn amrywiaeth o fformatau ac at amrywiaeth o bwrpasau, sy'n bodloni anghenion penodedig a dilys
- meithrin sgiliau trosglwyddadwy wrth ddefnyddio amrywiaeth o galedwedd a meddalwedd
- meithrin eu dealltwriaeth o gylchred oes datblygu systemau a'r ffordd y gall syniadau ddod yn gynhyrchion.

Sut fyddaf yn dysgu?

- Bydd 3 gwers pob wythnos
- Gallwch ddewis dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Beth fydd ei angen arnaf?

- Diddordeb mewn Technoleg Ddigidol
- Meddwl ymchwiliol a chymhelliant i weithio'n annibynnol
- Ymrwymiad i gyflwyno gwaith cwrs ar amser
- Er nad yw'n hanfodol, byddai'n fantais pe bai gennych gyfrifiadur a/neu liniadur adref

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Uned 1: Y byd digidol	Arholiad ar-sgrin: 1 awr 30 munud	40%	Asesiad (a wneir ar sgrin) sy'n cynnwys amrywiol fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud â systemau technoleg ddigidol, gwerth technoleg ddigidol a safbwyntiau ar dechnoleg ddigidol. Mae pob cwestiwn yn orfodol.
Uned 2: Arferion digidol	Asesiad di-arholiad: 45 awr	40%	Asesiad di-arholiad yn cynnwys dwy adran. Yn Adran A, bydd ymgeiswyr yn holi set ddata a fydd wedi'i darparu ac wedi'i mewnforio i daenlen er mwyn gallu cwblhau Adran B, lle y byddant yn creu gwefan. Sy'n ymgorffori naill ai animeiddiad neu gêm sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol.
Uned 3: Cyfathrebu yn y byd digidol	Asesiad di-arholiad: 15 awr	20%	Asesiad di-arholiad yn canolbwyntio ar farchnata asedau digidol gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd ymgeiswyr yn creu asedau digidol sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol sy'n llunio ymgyrch cyfathrebu digidol.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

- Mae'n bosib dilyn cwrs UG a Lefel A Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Syniadau am swyddi - *Mae sgiliau Technoleg Ddigidol yn angenrheidiol ar gyfer y mwyafrif o swyddi*

- Dylunydd/Datblygydd Gwe / Gwefeistr
- Datblygydd Gemau Cyfrifiadurol
- Datblygydd Meddalwedd
- Peiriannydd Rhwydwaith
- Dadansoddwr Systemau
- Rheolwr rhwydwaith
- Peilot Drôn
- Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol
- Gweinyddwr Cronfa Ddata
- Technegydd Cefnogi TG
- Gweithredydd Desg Gymorth
- Newyddiadurwr
- Ymchwilydd Cyfryngau
- Clerc Cofnodi Data
- Hyfforddwr TG
- Athro

Eisiau gwybod mwy? Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Miss Glenda Haf Jones, Pennaeth yr Adran.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT (TGAU)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Uned 1: Twf, datblygiad a llesiant dynol

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad dynol ar draws cylchred bywyd a'r ffyrdd y mae'n gallu effeithio ar hyn; sut y gall unigolion gymryd rheolaeth o'u gofal a'u hiechyd a'u llesiant; a sut y gall ymyrryd yn gynnar a chymryd camau ataliol gefnogi twf a datblygiad unigolion.

- Datblygiad dynol drwy gydol cylchred bywyd
- Iechyd corfforol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol
- Pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol i ddatblygiad a llesiant
- Atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn hybu a chynnal twf, datblygiad a llesiant ar gyfer amrediad o amgylchiadau a chyflyrau

Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrediad o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant sy'n cael eu darparu yng Nghymru a sut mae'r gwasanaethau hyn yn hybu ac yn cynnal iechyd a llesiant y genedl.

- Iechyd a gofal cymdeithasol, a darpariaeth gofal plant yng Nghymru i hybu a chynnal iechyd a llesiant
- Iechyd y cyhoedd a hybu iechyd drwy gydol cylchred bywyd
- Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol cylchred bywyd

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Mae'r cwrs yn cynnwys 2 uned.

Uned 1: Twf, datblygiad a llesiant dynol – Arholiad ysgrifenedig: 1 awr a 30 munud

80 marc, 40% o'r cymhwyster

Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant – Asesiad Di-arholiad: oddeutu 25 awr

120 marc, 60% o'r cymhwyster

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl Blwyddyn 11 gallwch ddychwelyd i'r ysgol i astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Safon Uwch. Gallwch hefyd astudio cyrsiau coleg sy'n gysylltiedig ag iechyd neu ddilyn hyfforddiant galwedigaethol, megis nyrs gadét neu NVQs mewn gofal plant.

Syniadau am swyddi!

- Nyrsio
- Gwaith cymdeithasol
- Parafeddyg
- Gweithio gyda phlant, e.e. nyrs feithrin
- Ffisiotherapydd
- Gwaith gofal

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â Miss Bracegirdle am fwy o wybodaeth.

AMGYLCHEDD ADEILEDIG (TGAU) – YSGOL SYR THOMAS JONES, AMLWCH

Pam dewis TGAU Amgylchedd Adeiledig?

Mae TGAU Amgylchedd Adeiledig CBAC yn cynnig profiad dysgu i bobl ifanc 14-16 oed sy'n canolbwyntio ar feithrin a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy wneud tasgau ac astudio mewn cyd-destun. Mae'n cynnig cyflwyniad delfrydol i'r amgylchedd adeiledig.

Beth fyddaf yn ei astudio?

Uned 1: Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig

Yn yr uned arholiad hon, byddwch chi'n datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn y syniadau a'r cysyniadau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd adeiledig. Bydd hyn yn cynnwys cylchred oes yr amgylchedd adeiledig, adeileddau, defnyddiau, cynaliadwyedd, gyrfaoedd ac iechyd a diogelwch.

Uned 2: Creu'r Amgylchedd Adeiledig

Yn yr uned asesiad di-arholiad hon, bydd gennych chi ddewis o ddau lwybr: Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig – canolbwyntio ar sgiliau lluniadu 2D a 3D; Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig – canolbwyntio ar ddatblygu 2 sgìl ymarferol. Dim ond un llwybr y mae angen i chi ei ddewis. Mae'r dasg yn y ddau lwybr yn asesu eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau mewn perthynas â nodi, dehongli a chyfrifo gwybodaeth; ysgrifennu meini prawf llwyddiant; cyflawni amrywiaeth o dechnegau sy'n briodol i'r llwybr a gwerthuso tasgau.

Uned 3: Archwilio'r Amgylchedd Adeiledig

Yn yr uned asesiad di-arholiad hon, byddwch chi'n datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r camau yng nghylchred oes yr adeilad; y camau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â dylunio, adeiladu, prisio a defnyddio'r amgylchedd adeiledig.

Mae'r cwrs yn cynnwys 3 uned:

Uned	Amgylchedd Adeiledig	Asesiad	Hyd	Cyfateb i
1	Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig	Arholiad ar-sgrin	1 awr 30 munud	35%
2	Creu'r Amgylchedd Adeiledig	Asesiad di-arholiad*	25 awr	40%
3	Archwilio'r Amgylchedd Adeiledig	Asesiad di-arholiad*	15 awr	25%

*asesiad di-arholiad: marcio gan yr athro a'i gymedroli'n allanol gan CBAC.

Sut byddaf yn cael fy asesu?

Mae cwrs CBAC Amgylchedd Adeiledig yn cael ei raddio **TGAU A* - G.**

Gwaith cwrs ar ffurf asesiadau dan reolaeth yw'r mwyafrif o'r gwaith gydag un arholiad ar-lein sydd werth 35% o'r radd gyfan.

Beth sydd yn dilyn y cwrs?

Gallwch barhau â'ch astudio yn yr ysgol neu yng Ngholeg Menai (lefel 3, uwch) gan ychwanegu at eich cymwysterau ac arbenigo yn eich maes dewisol. Yn dilyn hyn gallwch symud ymlaen i swydd yn y diwydiant adeiladu neu barhau â'ch addysg yn y brifysgol.

Syniadau gyrfa.

Pensaer, Technegydd pensaernïol, Prynwr, Technegydd Dylunio drwy Gymorth Cyfrifiadur, Amcangyfrifydd, Arolygwr safle, cymorth technegol, Technegydd to, Gwerthu mewn adeiladwaith, Peiriannydd safle, Peiriannydd strwythurol, Syrfëwr meintiau, Rheolwr safle, Peiriannydd trydanol, Peiriannydd mecanyddol a llawer mwy.

GWALLT CREADIGOL A HARDDWCH
(TYSTYSGRIF CITY & GUILDS LEFEL 2 MEWN GWALLT CREADIGOL AC ASTUDIAETHAU HARDDWCH- YSGOL UWCHRADD BODEDERN)

Beth fyddai'n ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y gallech weithio iddynt a sut brofiad fyddai gweithio yn y diwydiant gwallt a harddwch;
- Sut i liwio, phermio a steilio gwallt, trin ewinedd, trin dwylo, trin traed a sut i gadw ardal waith yn lân, taclus a diogel;
- Ynglŷn â dyletswyddau salon sylfaenol, eich ymddangosiad personol a'ch agwedd at waith ac arian a sut i drin cwsmeriaid yn briodol.

Sut fyddai'n dysgu?

Mae'r cwrs yn cael ei addysgu mewn Salon ar safle Ysgol Uwchradd Bodedern, ar bnawn Mercher i Flwyddyn 10 ac ar bnawn Llun i Flwyddyn 11. Mae'r cwrs yn gyfuniad o dasgau gwaith ffolio a rhai ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ymweld ag arddangosfeydd cenedlaethol, sioeau blynyddol, coleg a salonau gwallt a harddwch lleol.

Beth fyddai'i angen?

Bydd gofyn i fyfyrwyr ddarparu dillad ac esgidiau salon addas - esgidiau priodol, sgert neu drowsus du a thop gwyn neu ddu blaen; dim gemwaith a lle bo gwallt hir, hwnnw wedi ei glymu nôl.

Sut fyddai'n cael f'asesu?

Drwy gyfuniad o asesiadau ymarferol, arsylwi, gwaith cwrs a phrofion ysgrifenedig ac ar lafar.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Mae'r cwrs yma'n eich paratoi yn dda ar gyfer gwaith a/neu ddechrau prentisiaeth yn y diwydiant gwallt a harddwch.

Syniadau am Swyddi!

- Trin Gwallt ,Therapydd Harddwch / Therapydd Amgen ("Alternative")

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol:

https://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/beauty-and-complementary-therapies/beauty/3004-creative-hair-and-beauty-studies#tab=information&acc=level2

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com

TWRISTIAETH
(CBAC DYFARNIAD LEFEL 2 MEWN TWRISTIAETH - YSGOL UWCHRADD BODEDERN)

Beth fyddai'n ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i:

- ymchwilio i ansawdd profiad y cwsmer o fewn sefydliadau twristiaeth.
- adolygu opsiynau ar gyfer atebion busnes ar gyfer amrywiaeth o broblemau y mae sefydliadau twristiaeth yn eu hwynebu.
- ddiwallu anghenion cwsmeriaid a'r amgylchedd busnes y mae sefydliadau twristiaeth yn gweithredu o'i fewn er mwyn argymell sut y gellid gwella cyrchfannau er mwyn ychwanegu at eu hapêl a'u poblogrwydd

Sut fyddai'n dysgu?

- Addysgu dysgwyr i werthfawrogi'r amrediad o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yn y diwydiant twristiaeth.
- Rhoi'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau creiddiol sy'n gysylltiedig â sefydliadau a gweithgareddau twristiaeth i ddysgwyr.

Beth fyddai'i angen?

Diddordeb amlwg mewn maes twristiaeth. Bydd sgiliau mewn Rhifedd / Mathemateg, Llythrennedd / Cymraeg / Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn berthnasol.

Sut fyddai'n cael f'asesu?

Byddwch yn ennill y cymhwyster drwy gwblhau pob uned i safon ddisgwyledig.

UNEDAU ASESIAD MEWNOL:

- UNED 1 – "Profiad y Cwsmer" – Prosiect 10 Awr
- UNED 3 – "Datblygu Cyrchfannau i Dwristiaid yn y DU" Prosiect 20 Awr

UNEDAU ASESIAD ALLANOL:

- UNED 2 – "Busnes Twristiaeth" – Arholiad 75 munud

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Gallai cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, ynghyd â chymwysterau cyfatebol eraill, roi cyfleoedd i'r dysgwr astudio ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau Lefel 3 gan gynnwys TAG, prentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys y canlynol:

- TAG mewn Teithio a Thwristiaeth;
- Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 3 mewn teithio/twristiaeth;
- Prentisiaethau mewn gwasanaethau teithio, criw awyrennau neu weithrediadau sy'n gysylltiedig ag awyrennau ar y ddaear.

Syniadau am Swyddi!

Twristiaeth; Lletygarwch; Asiant Teithio; Trefnydd Gwyliau; Rheolaeth Gwestai; Tywyswr Gwyliau; Rheoli Digwyddiadau; Cynrychiolydd Gwyliau

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn dylech ymweld â'r dudalen we CBAC neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com.

BUSNES (EDEXCEL BTEC DYFARNIAD CYNTAF LEFEL 1/2)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs BTEC Lefel 2 mewn Busnes yn eich galluogi i:

- Ddarganfod a dysgu am fyd Busnes.
- Cynnig addysg a hyfforddiant mewn sefyllfaoedd Busnes.
- Ennill cymhwyster galwedigaethol Lefel 2 sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol, a fydd yn cynnig cyfle i chi gael eich cyflogi yn y sector busnes.
- Gwella eich sgiliau cyfathrebu, TGC, rhif, datrys problemau a sgiliau rhyngbersonol eraill.

Sut fyddaf yn dysgu?

Fel rhan o'r cwrs byddwch yn gwneud gwaith ymchwil unigol, cymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth a gweithgareddau, cyflawni tasgau ac asesiad allanol

Beth fydd ei angen arnaf?

- Diddordeb mewn busnes
- Meddwl ymchwiliol a chymhelliant i weithio'n annibynnol
- Gallu i fynegi'ch hunain yn ysgrifenedig
- Ymrwymiad i gyflwyno gwaith ar amser.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Mae pedair uned, dwy uned graidd a dwy uned ddewisol sydd angen eu hastudio, pob un gwerth 25% o'r wobr. Mae'r uned graidd, Menter yn y Byd Busnes, ynghyd â'r ddwy uned ddewisol yn cael eu hasesu'n fewnol. Mae'r uned graidd arall, Cyllid ar gyfer Busnes, yn cael ei hasesu'n allanol (mewn prawf ar-lein 1 awr o hyd).

Mae'r Dyfarniad Cyntaf Edexcel BTEC Lefel 1/Lefel 2 yn gymhwyster lefel 2; fodd bynnag fe'i graddir fel Llwyddo Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2*, Lefel 1 ac Annosbarthedig.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl ennill BTEC Lefel 2 mewn Busnes, gallwch ei astudio fel pwnc Safon Uwch neu ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer cymwysterau eraill sy'n gysylltiedig â busnes, e.e. Economeg, Cyllid, Gweinyddiaeth a BTEC Lefel 3 mewn Busnes. Byddwch hefyd yn dysgu llawer o sgiliau yn ystod y cwrs – rhai trosglwyddadwy a rhai penodol, y gallwch eu defnyddio ym myd gwaith.

Syniadau am swyddi!

- Marchnata
- Cyfrifeg
- Hunangyflogaeth
- Bancio ac Yswiriant
- Gweinyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Eisiau gwybod mwy?

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mr Edward Jones.

PEIRIANNEG
(DYFARNIAD CYNTAF BTEC LEFEL 2 MEWN PEIRIANNEG)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu am:-

- Yr ystod o gyfleoedd gwaith a'r mathau o gwmnïau y medrech weithio ynddynt yn lleol ac yn genedlaethol.
- Sut brofiad fyddai i weithio mewn peirianneg.
- Y byd peirianneg.
- Ymchwilio i mewn i gynnyrch peiriannyddol.
- Sut i greu modelau 3D a lluniadau a manylebau 2D i gynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio peiriannau a reolir gan gyfrifiadur.
- Sut i ddylunio a chreu cylchedau electronig gan ddefnyddio safonau diwydiannol.
- Sut i ddod o hyd i diffygion mewn cylchedau electronig ac i ddarganfod achosion y diffygion.
- Y Gyfraith Iechyd a Diogelwch a materion amgylcheddol yn y gweithle.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon, Môn a Choleg Menai ac yn cyfateb i 1 TGAU. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Goleg Menai a byddwch yn treulio 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac 11 ar safle Llangefni. Trefnir hefyd ymweliadau safle/profiad gyda phrif gyflogwyr lleol.

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Mae Mathemateg yn elfen hanfodol ac integrol o'r cwrs.

Beth fyddaf ei angen arnaf?

Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr wisgo Offer Amddiffynnol Personol (OAP) tra yn y gweithdai, (ee sbectol diogelwch ac oferôls) a ddarperir gan Goleg Menai.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu gwaith a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi ynghyd â un arholiad allanol.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs hwn, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

- Dilyn cymysgedd o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd fel rhan o bartneriaeth ysgol/Coleg Menai, ee Lefel 3 BTEC Tystysgrif/Diploma Atodol/AS / Lefel A.
- Dilyn cymhwyster Peirianneg ar lefel 2 neu 3 yng Ngholeg Menai, ee Lefel 2 BTEC Diploma, Lefel 3 BTEC Diploma Atodol, Diploma neu Diploma Estynedig.
- Dilyn cymhwyster CGC mewn sector perthnasol ar lefel 2 neu 3 yng Ngholeg Menai, ee. CGC Perfformio Gweithrediadau Peirianneg.
- Dilyn cynllun prentisiaeth fodern.

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

Syniadau Gyrfaol!

- Peiriannydd Proffesiol
- Arweinydd Tîm Peirianneg
- Peiriannydd Dylunio

Am wybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol:
http://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-firsts/engineering-2012-nqf.html

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com

Coleg Menai

14-19 GWYNEDD MÔN RHWYDWAITH

TECHNOLEG CERBYDOL L2

(BTEC LEFEL 2 TYSTYSGRIF ESTYNEDIG MEWN TECHNOLEG CERBYDOL)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu am holl agweddau'r cerbyd modur.

Egwyddorion sylfaenol -

- Injanau a systemau cysylltiedig
- Mecanweithiau pweru ('powertrains')
- Systemau llywio, brecio a hongiad
- Olwynion a theiars
- Cynnal a chadw

Sut y byddaf yn dysgu?

Byddwch yn dysgu drwy gyfrwng sesiynau theori yn yr ystafell ddosbarth a sesiynau ymarferol yn ein gweithdai pwrpasol yn Llangefni.

Beth fydd ei angen arnaf?

Brwdfrydedd, ymroddiad i weithio a diddordeb gwirioneddol mewn peirianneg cerbydau modur.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Cynhelir asesiadau drwy gyfrwng aseiniadau ysgrifenedig ac asesiadau ymarferol.

Beth sydd yn digwydd ar ôl y cwrs?

Byddwch yn gorffen y cwrs ar ddiwedd Blwyddyn 11. Yna bydd gennych y cyfle i astudio ar sail amser llawn yn Llangefni hyd at L3 ar ein cwrs newydd a chyffrous Chwaraeon Cerbydau Modur. Cewch gyfle i ailsefyll arholiadau TGAU a chwblhau cwrs Lefel A ar y cyd a'r cwrs cerbydau modur.

Syniadau am swyddi!

- Mecanig/Ffitiwr
- Technegydd/Meistr Dechnegydd
- Peiriannydd Dylunio
- Datblygu chwaraeon cerbydau modur

TRIN GWALLT A HARDDWCH

(DYFARNIAD ESTYNEDIG LEFEL 1 VTCT MEWN SGILIAU GWALLT A HARDDWCH)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi sydd ar gael, y salonau y gallech weithio ynddynt a sut beth fyddai gweithio yn y diwydiant gwallt a harddwch
- Sgiliau a thechnegau sylfaenol ac ymarferol ym maes trin gwallt
- Sgiliau sylfaenol ac ymarferol ym maes harddwch
- Byddwch yn gallu creu edrychiad cyflawn gan ddefnyddio'r sgiliau gwallt a harddwch y byddwch wedi'u meithrin
- Bydd amrywiaeth o ddewisiadau ymarferol ar gael i chi
- Anatomi a ffisioleg sylfaenol y gwallt a'r croen

Sut fyddaf yn dysgu?

Cynhelir y cwrs ar safle Coleg Menai ym Mangor 3 awr yr wythnos yn ystod Blynyddoedd 10 ac 11 a darperir cludiant yn ôl ac ymlaen o'ch ysgol. Mae'n cynnwys cymysgedd o sesiynau yn y dosbarth a thasgau ymarferol. Cyn cael eich asesu, cewch gyfle i baratoi ac arfer eich sgiliau er mwyn dysgu beth y bydd gofyn i chi ei wneud.

Beth fydd ei angen arnaf?

Bydd y dysgwyr yn cael tabard i'w wisgo mewn sesiynau ymarferol. Bydd arnoch angen ffeil, rhanwyr a waledi plastig.

Os hoffech, cewch ddod â'ch colur neu'ch cynhyrchion celf ewinedd eich hun i'r sesiynau ymarferol.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn gwneud gwaith cwrs a fydd yn cael ei asesu'n bennaf gan eich tiwtor cwrs. Ar ddiwedd y cwrs, byddwch yn cwblhau asesiadau ymarferol i bennu'ch gradd derfynol – Llwyddo, Teilyngdod neu Ragoriaeth.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs?

Ar ôl Blwyddyn 11, gallech fynd ymlaen i ddilyn cwrs Diploma NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt neu Therapi Harddwch neu i gwblhau Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2. Ar ôl hyn i gyd, byddwch yn fwy na pharod i weithio a/neu i ddechrau ar brentisiaeth yn y diwydiant gwallt a harddwch. Ond, os na fyddwch am barhau ym maes gwallt a harddwch, gallech ddewis astudio ar gyfer cymwysterau addas eraill, yn dibynnu beth ydych am ei ystyried nesaf. Gall eich cynghorydd gyrfaoedd eich helpu gyda'r dewisiadau a fydd ar gael i chi pan fyddwch yn gadael yr ysgol.

Swyddi Posibl!

- Triniwr Gwallt
- Therapydd Harddwch
- Therapydd Amgen

Eisiau gwybod rhagor?

I gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn, ewch i:
https://www.vtct.org.uk/find-a-qualification/
Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com

NID YW'R CWRS YN ADDAS I DDYSGWYR GYDAG ALERGEDD CNAU

ADEILADWAITH
(TYSTYSGRIF LEFEL 1 CITY & GUILDS MEWN SGILIAU ADEILADWAITH)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y medrech weithio ynddynt a sut brofiad fyddai gweithio yn y diwydiant adeiladu;
- Sut i wneud Bricwaith, Plastro, Gwaith Coed, Paentio ac Addurno sylfaenol a sut i gadw ardal waith yn lân, taclus a diogel;
- Am faterion amgylcheddol, iechyd a diogelwch a'r gyfraith yn y gweithle.

Sut fyddaf yn dysgu? Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg Menai yn Llangefni am 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac 11 ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ystafell ddosbarth ac ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud.

Beth fyddaf ei angen? Bydd gofyn i fyfyrwyr ddarparu dillad amddiffynnol addas (esgidiau diogelwch ac oferôls) a fydd ar gael gan y Coleg.

Sut fyddaf yn cael fy asesu? Byddwch yn cynhyrchu gwaith cwrs a asesir yn bennaf gan y tiwtor cwrs. Ar ddiwedd pob uned cwrs, byddwch yn cwblhau asesiad tasg ymarferol a fydd yn profi eich gwybodaeth.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn? Ar ôl Blwyddyn 11, gallech fynd ymlaen i wneud cwrs Diploma City & Guilds Lefel 1 neu 2 yn llawn amser, neu gael prentisiaeth mewn Plastro a Gwaith Saer fyddai'n eich rhyddhau o'r gwaith i wneud Diploma / NVQ Lefel 2. Dewis arall fyddai cwrs adeiladu ICA/NVQ Lefel 2 a fyddai'n eich rhyddhau o'r gwaith i ddod i'r coleg. Ar ôl hyn i gyd, byddwch yn fwy na pharod i weithio a/neu i ddechrau ar hyfforddiant pellach yn y diwydiant adeiladu.

Ond, os nad ydych yn ffansio parhau gydag adeiladu, gallwch ddewis cymwysterau addas eraill yn dibynnu ar yr hyn yr ydych eisiau edrych arno nesaf. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gydag eich dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am Swyddi!

- Briciwr
- Peintiwr ac Addurnwr
- Plastrwr
- Gwaith Coed

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, dylech ymweld â'r dudalen we ganlynol:
http://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/construction/construction/6219-construction-skills#tab=information&acc=level1

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com

NID YW'R CWRS YN ADDAS I DDYSGWYR GYDAG ECSEMA

PEIRIANNEG TRIN CEIR

(TYSTYSGRIF CITY & GUILDS NVQ LEFEL 1 MEWN PEO)

Beth fyddaf yn dysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y gallwch weithio ynddynt a sut brofiad fyddai gweithio yn y diwydiant moduro;
- Sut i wneud gwasanaethau mecanyddol sylfaenol a gwaith cynnal a chadw wedi ei amserlennu, gweithio gyda dalen fetel, torri a weldio, sut i gadw ardal waith yn lân a thaclus a sut i weithio'n ddiogel yn y diwydiant moduro.
- Am faterion amgylcheddol, iechyd a diogelwch a'r gyfraith yn y gweithle.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg Menai yn Llangefni am 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac 11 ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ystafell ddosbarth ac ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud.

Beth fydd ei angen arnaf?

Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr wisgo dillad amddiffynnol personol (esgidiau diogelwch ac oferôls) a fydd ar gael gan y Coleg.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu llyfr log a phortffolio sydd yn cael eu hasesu'n bennaf gan eich tiwtor cwrs.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl Blwyddyn 11, gallwch fynd ar gwrs Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Modur City and Guilds neu gwrs rhyddhau diwrnod Cynnal a Chadw Modur City and Guilds. Gallwch hefyd astudio ar y cwrs llawn amser lefel 2 Perfformio Gweithrediadau Peirianneg C&G yn y coleg neu gallwch ddilyn prentisiaeth City & Guilds mewn weldio. Wedi hyn i gyd, byddwch wedi eich paratoi yn dda ar gyfer gwaith a/neu ddechrau hyfforddiant pellach yn y diwydiant moduro. Ond, os nad ydych yn ffansio parhau gyda pheirianneg fodurol, medrech ddewis cymwysterau addas eraill yn dibynnu ar yr hyn y dymunwch ei ystyried nesaf. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gydag eich dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am swyddi!

- Mecanic Car
- Mecanic Cerbydau Trwm
- Peiriannydd / Technegydd

Eisiau gwybod mwy? I ddarganfod mwy am y cwrs hwn ymwelwch â'r wefan ganlynol: http://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/engineering/mechanical/7682-performing-engineering-operations#tab=information&acc=level1

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com

PEIRIANNEG
(TYSTYSGRIF CITY & GUILDS NVQ LEFEL 1 MEWN PEO)

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y medrech weithio ynddynt a sut brofiad fyddai i weithio mewn peirianneg.
- Sut i ddefnyddio offer llaw a pheiriannau yn ddiogel ar gyfer torri a siapio a sut i baratoi ardal waith.
- Ynglŷn â materion amgylcheddol, iechyd a diogelwch a'r gyfraith yn y gweithle.
- Ynglŷn â'ch agwedd at waith ac arian a sut i reoli eich cyllid personol.

Sut fyddaf yn dysgu? Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg Menai yn Llangefni am 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac ym Mlwyddyn 11 ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ystafell ddosbarth ac ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud.

Beth fyddaf ei angen? Bydd gofyn i fyfyrwyr ddarparu dillad amddiffynnol addas (esgidiau diogelwch ac oferôls) a fydd ar gael gan y Coleg.

Sut fyddaf yn cael fy asesu? Byddwch yn cynhyrchu gwaith cwrs a asesir yn bennaf gan y tiwtor cwrs.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn? Ar ôl Blwyddyn 11, gallwch fynd ymlaen i'r BTEC Tystysgrif Estynedig Lefel 2 neu brentisiaeth fodern. Ar ôl hyn i gyd, byddwch wedi eich paratoi yn dda ar gyfer gwaith a/neu ddechrau prentisiaeth mewn peirianneg. Ond, os nad ydych yn ffansio parhau gyda pheirianneg, gallwch ddewis cymwysterau addas eraill yn dibynnu ar yr hyn yr ydych eisiau edrych arno nesaf. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gydag eich dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am Swyddi!

- Peiriannydd Cynhyrchu
- Technegydd Peirianneg
- Crefftwr Peirianneg
- Weldar

Eisiau gwybod mwy? I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, dylech ymweld â'r dudalen we:

http://www.cityandguilds.com/courses-and-qualifications/engineering/mechanical/7582-performing-engineering-operations

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com